



Department for  
Energy Security  
& Net Zero

# Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu ynni niwclear newydd

Ymgynghoriad ar y dull newydd o leoli ar ôl  
2025

Dyddiad cau: 10 Mawrth 2024 @ 23:59

Ionawr 2024



© Hawlfraint y Goron 2024

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](https://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth / Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu ebostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint gan drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: [newnuclearnps.consultation@energysecurity.gov.uk](mailto:newnuclearnps.consultation@energysecurity.gov.uk)

## Rhagair

Mae cyflenwadau rhad a thoreithiog o ynni carbon isel yn hollbwysig ar gyfer twf economaidd hirdymor Prydain. Mae'r pandemig byd-eang ac ymosodiad anghyfreithlon Putin ar Wcráin wedi achosi brigadau na welwyd eu tebyg o'r blaen mewn prisiau ynni ledled y byd, ac wedi amlygu/dangos yr angen i gynhyrchu technolegau carbon isel domestig er mwyn ysgogi twf a lleihau cost biliau ynni. Mae creu'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net eleni yn ddatganiad clir o fwriad y llywodraeth hon i sicrhau bod system ynni'r DU yn gryf, yn gydnherth ac yn parhau i ddatgarboneiddio.

Bydd ynni niwclear yn chwarae rhan allweddol yn y broses o hwyluso ynni carbon isel toreithiog a rhad. Mae lansio Great British Nuclear<sup>1</sup> ym mis Mawrth wedi dangos ymrwymiad y llywodraeth hon i niwclear ac uwch dechnolegau niwclear. Mae Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain yn amlinellu'r uchelgais o sicrhau hyd at 24 Gigawatt (GW) o gapasiti ynni niwclear erbyn 2050 i ddarparu hyd at 25% o anghenion trydan disgwylidig y DU.

Mae'r Map Ffordd Niwclear Sifil yn nodi ein huchelgais, a'r camau rydym yn eu cymryd er mwyn gallu ei chyflawni. Yn y Map Ffordd Niwclear Sifil rydym yn cadarnhau ein hymrwymiad i roi mwy o ynni niwclear sifil ar waith ac yn nodi sut y bydd angen i'r llywodraeth a diwydiant weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r uchelgais hon. Mae arnom eisiau rhoi arwydd clir i'r diwydiant, gan nodi sut rydym yn disgwyl i'r broses o roi mwy o ynni niwclear ar waith ddigwydd, y penderfyniadau mawr y bydd y llywodraeth yn eu gwneud yn y dyfodol, a'r rôl y bydd y llywodraeth yn ei chwarae drwy gefnogi a galluogi'r rhaglen adeiladu hon. Er mwyn cyflawni uchelgeisiau niwclear y DU, bydd angen safleoedd newydd ac ychwanegol, felly bydd arnom angen mwy o hyblygrwydd yn y broses o ddewis safleoedd i alluogi technolegau newydd.

Cyhoeddwyd y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) presennol am ynni niwclear, EN-6, yn 2011 ac mae'n darparu fframwaith i asesu ceisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd y disgwylir y byddant yn cael eu rhoi ar waith cyn diwedd 2025. Mae'n nodi'r angen am ynni niwclear newydd ac yn darparu canllawiau i'r Arolygiaeth Gynllunio, datblygwyr, a'r Ysgrifennydd Gwladol wrth iddynt ystyried ceisiadau.

Ar yr adeg y dynodwyd EN-6, yr unig dechnoleg niwclear a oedd ar gael yn fasnachol oedd graddfa Gigawatt (GW) a chredid mai gosod terfyn amser ar gyfer prosiectau niwclear mewn lleoliadau penodol oedd y ffordd orau o roi mwy o gynlluniau ar waith. Llwyddodd EN-6 i hwyluso'r broses o roi Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd yn Hinkley Point C ym mis Mawrth 2013, a rhoddwyd cydsyniad datblygu ar gyfer Sizewell C yn 2022.

Mae angen i ni gynhyrchu NPS niwclear newydd yn awr, er mwyn darparu fframwaith cynllunio effeithiol ar ôl 2025, a hefyd er mwyn manteisio ar y technolegau niwclear datblygedig a fydd ar gael a darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen er mwyn cyflawni uchelgeisiau niwclear y DU. Bydd EN-6 yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig a pherthnasol

---

<sup>1</sup> Rydym wedi lansio Great British Nuclear (GBN) fel rhan o'n cynllun Powering Up Britain, corff hyd braich sy'n gyfrifol am helpu i gyflawni prosiectau niwclear newydd – mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn <https://www.gov.uk/government/organisations/great-british-nuclear>

mewn unrhyw broses gynllunio ar gyfer prosiectau ar y safleoedd a restrwyd yn EN-6, yn ogystal â gwelliannau i DCOs ar gyfer prosiectau y rhoddwyd cydsyniad iddynt dan EN-6, pan gaiff yr NPS newydd ei ddynodi.

Yr ymgynghoriad hwn yw cam cyntaf y broses o adolygu'r NPSs niwclear er mwyn darparu canllawiau clir ar leoli gorsafoedd ynni niwclear ar ôl 2025. Bydd yn rhoi i'r diwydiant a buddsoddwyr yr hyder y mae arnynt ei angen i roi prosiectau ar waith yn gyflym. Nid oes llawer o newidiadau i'r prosesau rheoleiddio trylwyr, a'r meini prawf sy'n sail i benderfyniadau wedi'u hystyried yn ofalus ynglŷn â lleoli gorsafoedd ynni niwclear, ac maent yn gyson ag EN-6. Dim ond ar gam cyn ymgeisio y broses gynllunio y mae'r newidiadau a'r datblygiadau polisi a gynigir yn effeithio, ac ni fyddant yn newid y system gynllunio nac yn cael unrhyw effaith ar y broses bresennol o ymgynghori â'r cyhoedd, nac ar fesurau diogelwch, diogeled a diogelu'r amgylchedd a gynigir gan drefniadau rheoleiddio eraill. Bydd y safbwyntiau a'r awgrymiadau a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn yn dylanwadu yn y pen draw ar y meini prawf a'r broses asesu ar gyfer prosiectau niwclear newydd, a fydd yn cael eu hymgorffori yn yr NPS niwclear newydd, EN-7. Bwriadwn gyhoeddi NPS niwclear EN-7 fel rhan o broses ymgynghori yn 2024.

Yn ogystal â darparu ffynhonnell ddibynadwy o drydan carbon isel, mae ynni niwclear wedi bod yn bwysig o safbwynt economaidd ers blynyddoedd i sawl ardal yn y DU, a gall helpu i gefnogi amcan y llywodraeth o wasgaru cyfleoedd yn decach ar draws y DU. Byddem yn croesawu ymatebion gan unrhyw gymunedau sy'n meddwl y gallent elwa o'r cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd y gall ynni niwclear eu cynnig, yn enwedig ardaloedd sydd â chyn dir diwydiannol a thir llwyd a allai fod yn addas ar gyfer ailddatblygu.

Bydd cyflwyno NPS niwclear newydd ar ôl 2025 yn cefnogi penderfyniadau datblygu, yn gwella hyder buddsoddwyr, ac yn darparu'r lefel uwch o sicrwydd sydd ei hangen er mwyn galluogi twf sector niwclear y DU. Edrychwn ymlaen at glywed eich barn a'ch sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn.

# Cynnwys

Rhagair	3
Gwybodaeth gyffredinol	6
Pam rydym yn ymgynghori	6
Manylion yr ymgynghoriad	7
Sut i ymateb	7
Cyfrinachedd a diogelu data	8
Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	9
Datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol	9
1. Crynodeb Gweithredol	10
2. Cefndir	11
2.1 Cynhyrchu ynni niwclear yn y DU	11
2.2 Y System Gynllunio a Datganiadau Polisi Cenedlaethol	12
2.3 Y Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear	14
3. Y Cynigion Polisi	17
3.1 Cyflwyniad	17
3.2 Y prif gynigion polisi	18
4 Meini prawf lleoli niwclear	25
4.1 Cyflwyniad	25
4.2 Meini Prawf Asesu Safle Arfaethedig	26
4.3 Ystyriaeth Fanwl o Feini Prawf Asesu Safle Penodol	27
4.4 Materion eraill sy'n cael eu hystyried yn EN-6	35
5 Gweithredu'r prif gynigion polisi	39
5.1 Y prif ystyriaethau	39
5.2 Newid arfaethedig i'r dull gweithredu	39
5.3 Newidiadau ymarferol i weithrediad y broses asesu safleoedd dan yr NPS newydd	40
6 Crynodeb o holl gwestiynau'r ymgynghoriad	44
7 Y camau nesaf	50
Atodiad 1: Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol am ynni?	51
Atodiad 2: Hierarchaeth meini prawf lleoli niwclear	54
Atodiad 3: Crynodeb o'r Trefniadau Rheoleiddio	55

# Gwybodaeth gyffredinol

## Pam rydym yn ymgynghori

Cafodd y gyfres bresennol o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol am ynni eu dynodi gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn 2011. Mae'n cynnwys yr NPS cyffredinol am ynni (EN-1)<sup>2</sup> a nifer o NPSs ar gyfer technolegau penodol (EN-2 i EN-6)<sup>3</sup>, gan gynnwys NPS sy'n ymwneud yn benodol â niwclear (EN-6).

Ym mis Rhagfyr 2020, lansiodd y llywodraeth adolygiad o'r NPSs ynni er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu blaenoriaethau ynni'r llywodraeth fel y maent wedi'u nodi yn y Cynllun Deg Pwynt<sup>4</sup> a'r Papur Gwyn ar Ynni<sup>5</sup>. Yn dilyn yr adolygiad, lansiodd ymgynghoriad er mwyn diweddarau EN-1 i EN-5 ym mis Medi 2021. Daethpwyd i'r casgliad bod angen NPS niwclear newydd ar gyfer prosiectau ymholliad niwclear a fyddai'n cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025.

Ers hynny, mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi rhagor o ddogfennau yn nodi polisi perthnasol. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd Net Zero Strategy: Build Back Greener<sup>6</sup>, sy'n amlinellu ein cynllun ar gyfer lleihau dibyniaeth ar danwydd ffosil a newid i ynni carbon isel yn gyson â'n hymrwymadau sero net. Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd y llywodraeth Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (BESS)<sup>7</sup>, ac ym mis Mawrth 2023, dilynwyd hyn â Powering Up Britain<sup>8</sup>, sy'n amlinellu nifer o ymrwymadau yn ymwneud ag ynni, cynlluniau ar gyfer diwygio a'r NPSs ynni. Roedd Powering Up Britain yn cynnwys ymrwymiad i ymgynghori ar y dull a gynigid ar gyfer lleoli prosiectau niwclear newydd yn ddiweddarach yn 2023, ac mae'r ddogfen hon yn gwireddu'r ymrwymiad hwnnw.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw dechrau'r broses o ddynodi NPS niwclear newydd (EN-7, yn adlewyrchu ein fframwaith cynllunio ni heddiw), a fydd yn gymwys i orsafoedd ynni niwclear y disgwylir y byddant yn cael eu rhoi ar waith<sup>9</sup> y tu hwnt i derfyn EN-6, sef 2025. Cynigiwyd rhai diweddariadau perthnasol i'r polisi presennol ar gyfer lleoli gorsafoedd ynni niwclear ac mae'r llywodraeth yn dymuno casglu barn ynglŷn â'r newidiadau hyn cyn

---

<sup>2</sup> <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a79522de5274a2acd18bd53/1938-overarching-nps-for-energy-en1.pdf>

<sup>3</sup> <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/national-policy-statements/>

<sup>4</sup> Llywodraeth y DU (2020). The Ten Point Plan for a Green Industrial Revolution. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/the-ten-point-plan-for-a-green-industrial-revolution/title>

<sup>5</sup> Llywodraeth y DU (2020). Energy white paper: Powering our net zero future. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future-accessible-html-version>

<sup>6</sup> Llywodraeth y DU (2021). Net Zero Strategy: Build Back Greener. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/net-zero-strategy>

<sup>7</sup> Llywodraeth y DU (2022). Strategaeth diogelwch ynni Prydain. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/british-energy-security-strategy/british-energy-security-strategy>

<sup>8</sup> Llywodraeth y DU (2023). Powering up Britain. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/powering-up-britain>

<sup>9</sup> Fel sy'n berthnasol at ddiben cymhwysedd EN-6, ystyr "rhoi ar waith" i'r llywodraeth yw'r adeg pan fydd gorsaf gynhyrchu yn dechrau bwydo'r trydan y mae'n ei gynhyrchu i'r rhwydwaith trawsyrru trydan, a nodir bod hyn yn debygol o fod yn adeg cyn i'r orsaf fod yn gwbl weithredol o safbwynt masnachol.

cwblhau'r polisi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y newidiadau perthnasol hynny mewn polisi cyn lansio ymgynghoriad ffurfiol arall ar yr NPS drafft newydd yn 2024.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd:** 11 Ionawr 2024

**Ymatebion erbyn:** 10 Mawrth 2024 @ 23:59

**Ymholiadau i:** [newnuclearnps.consultation@energysecurity.gov.uk](mailto:newnuclearnps.consultation@energysecurity.gov.uk)

(Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad ebost hwn. Gweler y manylion isod am ymateb drwy Citizen Space)

**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** New Nuclear NPS Siting

**Cynulleidfa:** Mae ar y llywodraeth eisiau clywed gan aelodau o'r cyhoedd, diwydiant, cyrff anllywodraethol, cyrff a sefydliadau cyhoeddus sydd â diddordeb, a gwladwriaethau cyfagos.

### Rhychwant tiriogaethol:

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag ymarfer pwerau yng Nghymru a Lloegr. Mae polisi ynni at ei gilydd yn fater a gedwir yn ôl i Weinidogion y DU, ond nid yw'r pwerau sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn yn gymwys yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gan fod y pŵer cyfreithiol i roi caniatâd i adeiladu gorsafoedd ynni â chapasiti mwy na 50MW wedi'i ddatganoli yn weithredol i Weinidogion yr Alban a hefyd wedi'i ddatganoli yng Ngogledd Iwerddon. Yn ychwanegol at hyn, mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi i Weinidogion Cymru y cyfrifoldeb o roi caniatâd i adeiladu gorsafoedd ynni â chapasiti cynhyrchu rhwng 10MW a 350MW.

## Sut i ymateb

Rydym yn gwahodd ymatebion i'r Ymgynghoriad hwn, lle bo modd, drwy'r llwyfan e-ymgynghori ar-lein, Citizen Space.

Yn yr Ymgynghoriad hwn, mae ar y llywodraeth eisiau clywed gan aelodau o'r cyhoedd, diwydiannau, cyrff anllywodraethol, cyrff a sefydliadau cyhoeddus sydd â diddordeb, a gwladwriaethau cyfagos. Wrth ymateb, dylech nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn ynteu'n mynegi barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech egluro'r buddiannau a gynrychiolir gan y sefydliad, a lle bo'n gymwys, sut rydych wedi canfod barn yr aelodau.

Bydd eich ymateb yn fwyaf buddiol os yw wedi'i fframio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnwyd, ond croesewir sylwadau a thystiolaeth bellach hefyd. Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwysoliad i ymatebion sy'n seiliedig ar ddadl a thystiolaeth, yn hytrach na dim ond mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

Mae ymgynghoriadau yn denu llawer iawn o ddiddordeb mewn llawer o sectorau. Mae defnyddio'r gwasanaeth ar-lein yn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion, gan alluogi ystyriaeth fwy effeithlon ac effeithiol o'r materion a godwyd. O ganlyniad, **rydym yn eich annog i ymateb drwy Citizen Space**. Cysylltwch â ni os ydych yn bwriadu defnyddio dull arall i ymateb.

**Ymatebwch ar-lein yn:** <https://energygovuk.citizenspace.com/energy-security/new-nps-for-siting-nuclear-power-generation/>

Neu, gallwch drafod dulliau eraill o ymateb gyda ni:

Ebost neu lythyr i'r Tîm NPS Niwclear Newydd:

Ebost: [newnuclearnps.consultation@energysecurity.gov.uk](mailto:newnuclearnps.consultation@energysecurity.gov.uk)

Cyfeiriad: New Nuclear NPS Team  
Department for Energy Security and Net Zero  
3-8 Whitehall Place  
Llundain  
SW1A 2AW

## Cyfrinachedd a diogelu data

Gall gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu yn unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth rydych yn ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, dywedwch wrthym, ond sylwch na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau diogelu data sy'n gymwys. Gweler ein polisi preifatrwyd.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau sefydliadau a ymatebodd, ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cysylltu eraill pobl.

## Sicrwydd ansawdd

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn yn unol ag [egwyddorion ymgynghori](#) y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gwynion ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, anfonwch ebost at: [bru@energysecurity.gov.uk](mailto:bru@energysecurity.gov.uk)



## Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Wrth adolygu'r polisiau hyn a datblygu'r cynigion ymgynghori hyn rydym yn ystyried anghenion pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig, fel y maent wedi'u diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil (mae hyn yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd); crefydd neu gred (mae hyn yn cynnwys diffyg cred); rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil.

Ar hyn o bryd, oherwydd natur y maes polisi a phwnc yr ymgynghoriad, nid ydym wedi nodi unrhyw gyfleoedd i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth neu unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid ydym ychwaith wedi nodi unrhyw gyfleoedd i hybu cyfle cyfartal neu feithrin perthnasoedd da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai hynny nad ydynt. Fodd bynnag, os oes unrhyw wybodaeth y credwch y dylem ei hystyried fel rhan o'r asesiad hwn dylech ei chynnwys yn eich ymateb i'r ymgynghoriad.

## Datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol

Wrth adolygu'r polisiau hyn a datblygu'r cynigion ymgynghori hyn rydym yn ystyried yr egwyddorion yr ymrwymwyd iddynt yn y Datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol.

# 1. Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae ynni niwclear yn gweld adfywiad mawr yn y DU, ac rydym ar flaen y gad mewn ras fyd-eang i ddatblygu technolegau arloesol er mwyn darparu ynni glanach, rhatach, a mwy diogel yn gyflym. Mae Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (BESS) yn amlinellu uchelgais i sicrhau capasiti niwclear o hyd at 24 Gigawatt (GW) erbyn 2050 i ddarparu hyd at tua 25% o anghenion trydan disgwylidig y DU. Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw dechrau'r broses o ddynodi Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) newydd, EN-7, a fydd yn gymwys i orsafoedd ynni niwclear y disgwylir y byddant yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025, yn cynnwys gorsafoedd ynni niwclear graddfa GW, Adweithyddion Modiwlaid Datblygedig (AMR) ac Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR). Mae'r NPSs ynni<sup>10</sup> yn amlinellu polisi'r llywodraeth ar gyfer cyflawni seilwaith ynni ac yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer penderfyniadau cynllunio ar gyfer Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol dan Ddeddf Cynllunio 2008.
- 1.2 Y cam cyntaf tuag at NPS niwclear arfaethedig, EN-7, yw'r ymgynghoriad hwn ar y dull o asesu addasrwydd posibl safleoedd ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd. Yn fyr, mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu:
- Dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer safleoedd niwclear newydd, â meini prawf wedi'u diweddarau sy'n cyfyngu ar y manau lle gall datblygu ddigwydd. Nid yw nodi safleoedd posibl ar gyfer gorsafoedd niwclear yn cael ei gynnig mwyach.
  - Cael gwared ar y terfyn amser ar gyfer rhoi prosiectau newydd ar waith er mwyn agor mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoli a hwyluso datblygu marchnad fwy hirdymor.
  - Polisi lleoli ar gyfer SMRs ac AMRs, yn ogystal â'r prosiectau graddfa GW.
  - Yn ogystal â'r ymgynghoriad hwn, mae'r llywodraeth hefyd yn cyhoeddi adroddiad cwmpasu drafft ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) ac adroddiad methodoleg drafft ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)<sup>11</sup>. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnig sut y bydd AoS a HRA yn cael eu gwneud, y lefel a'r math o wybodaeth a fydd yn cael eu cynnwys yn yr asesiadau a sut y bydd y rhain yn cael eu hintegreiddio wrth ddatblygu EN-7.
- 1.3 Bydd y newidiadau hyn yn darparu'r hyblygrwydd parhaus sydd ei angen er mwyn sicrhau bod digon o safleoedd i gyflawni uchelgeisiau niwclear y wlad, tra'n sicrhau bod lleoli gorsafoedd ynni niwclear newydd yn cael ei gyfyngu'n briodol a bod gorsafoedd ynni niwclear yn cael eu lleoli mewn lleoliadau addas yn unig.

---

<sup>10</sup> Ar hyn o bryd mae chwe NPS sy'n berthnasol i ynni: un NPS cyffredinol ar ynni (EN-1) a phum NPS sy'n ymwneud â thechnolegau penodol (EN-2 i EN-6), gan gynnwys un ar Ynni Niwclear (EN-6), y mae'n rhaid ei ddarllen gydag EN-1.

<sup>11</sup> Mae'n ofynnol i'r llywodraeth wneud AoS a HRA fel sail i'r EN-7 arfaethedig.

## 2. Cefndir

### 2.1 Cynhyrchu ynni niwclear yn y DU

- 2.1.1. Mae gan y DU hanes maith o arloesi ym maes technoleg niwclear. Heddiw, mae ynni niwclear yn dal yn hollbwysig i diogelwch ynni'r DU yn ogystal â'n cynlluniau ar gyfer annibyniaeth o ran ynni, amrywio ynni, twf economaidd, creu swyddi a datblygu technoleg, tra'n lleihau ein dibyniaeth ar danwydd ffosil a thrawsnewid i gymysgedd ynni fforddiadwy, carbon isel. Mae cynhyrchu trydan o ffynonellau carbon isel yn elfen hanfodol o'r broses o drawsnewid i allyriadau carbon sero net erbyn 2050 a chyrraedd ein targedau statudol ar gyfer y chweched cyllideb garbon (CB6).
- 2.1.2. Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi pwysleisio pwysigrwydd cynyddol diogelwch ein cyflenwad ynni a chydnerthedd ynni domestig. Mae'r flaenoriaeth hon yn ategu ein hymrwymiaid sero net cyfreithiol a rhyngwladol. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rhaid i ni ddatgarboneiddio'r sector ynni erbyn 2035, yn amodol ar ddiogelwch y cyflenwad. Bydd trawsnewid y system ynni i gynhyrchu ynni carbon isel yn sicrhau cyflenwad diogel a dibynadwy, a biliau fforddiadwy i aelwydydd a busnesau.
- 2.1.3. Roedd strategaeth Powering Up Britain, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023, yn nodi cynlluniau i gynyddu nifer y gorsafoedd ynni niwclear sifil, ac yn pwysleisio uchelgais y llywodraeth o sicrhau hyd at 24 Gigawatt (GW) o niwclear newydd erbyn 2050. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) cyffredinol am ynni EN-1, a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Gorffennaf 2011, ynghyd â fersiwn drafft wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ym mis Mawrth 2023, yn nodi'n glir bod y llywodraeth yn credu bod cynhyrchu ynni niwclear yn dechnoleg carbon isel wedi ei phrofi a fydd yn chwarae rhan bwysig wrth i ni amrywio a datgarboneiddio ein ffynonellau trydan a chynyddu cydnerthedd system ynni'r DU. Roedd yr EN-1 gwreiddiol a'r fersiwn wedi'i ddiweddarau hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r angen i gynhyrchu trydan yn y dyfodol, a oedd yn nodi'n glir bod gan ynni niwclear newydd ran bwysig i'w chwarae yng nghymysgedd ynni'r DU yn y dyfodol<sup>12</sup>.
- 2.1.4. Mae pum gorsaf yn cynhyrchu ynni niwclear yn y DU ar hyn o bryd, ond disgwylir mai dim ond un fydd yn dal i gynhyrchu erbyn 2028<sup>13</sup>. Yn unol â'r angen brys am ynni carbon isel a nodir yn yr NPS ynni trosfwaol, EN-1, rydym angen gorsafoedd ynni niwclear newydd er mwyn cyflawni amcanion ynni a charbon isel y DU. Mae gorsafoedd ynni niwclear yn darparu ynni carbon isel diogel, dibynadwy, di-dor â rhychwant oes amcangyfrifedig o 60 mlynedd, gan ddefnyddio llawer iawn llai o dir o'i gymharu â thechnolegau cynhyrchu carbon isel eraill megis ynni gwynt a solar. Nid ydynt yn cynhyrchu allyriadau uniongyrchol wrth weithio, ac mae eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr oes anuniongyrchol yn debyg i wynt ar y môr. Mae niwclear yn darparu manteision diogelwch cyflenwad, yn gallu cynnig manteision system

---

12 Ar sail dadansoddiadau annibynnol, mae'r llywodraeth yn credu bod allyriadau carbon o orsaf ynni niwclear newydd yn debygol o fod o fewn yr ystod o 7-22g/kWh. Mae hyn yn unol ag ymchwil a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy a'r IAEA. Mae hyn yn cymharu â'r allyriadau CO<sub>2</sub> oes o ynni gwynt ac yn llawer llai na gorsafoedd tanwydd ffosil.

13 Disgwylir mai dim ond Sizewell B (1198 MW) fydd yn dal i gynhyrchu ynni ar ôl 2030.

ehangach megis gwres neu hydrogen carbon isel, ac mae ganddo gymwysiadau eraill megis cynhyrchu isotopau meddygol.

- 2.1.5. Mae'r llywodraeth yn parhau'n ymroddedig i brosiectau niwclear mawr, megis Hinkley Point C a Sizewell C. Mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod bod technolegau Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig (AMR) ac Adweithyddion Modiwlaidd Bach (SMR) yn cynnig cyfleoedd cyffrous i'r DU.
- 2.1.6. Yn gyffredinol, mae SMRs yn fersiynau llai o adweithyddion niwclear confensiynol oeri â dŵr, sy'n cael eu hadeiladu mewn dull modiwlaidd ar safle arall a'u cludo i'r safle lle cânt eu defnyddio. Mae gwahanol fathau o dechnolegau adweithyddion SMR newydd yn cael eu datblygu ledled y byd, ac mae eu hallbwn ynni tua un rhan o bump neu draean o allbwn adweithyddion confensiynol mwy. Gellid cymhwysio llawer o'r dyluniadau at ddibenion eraill ar wahân i gynhyrchu trydan carbon isel, gan gynnwys cynhyrchu hydrogen, gwres uniongyrchol at ddefnydd diwydiannol neu ddomestig a rheoli gwastraff niwclear.
- 2.1.7. Adweithyddion Modiwlaidd Datblygedig (AMR) yw'r genhedlaeth nesaf o ynni niwclear, sy'n defnyddio tanwydd a systemau oeri newydd ac arloesol i gynhyrchu trydan yn ogystal â chymwysiadau eraill megis gwres a hydrogen. Maent yn defnyddio'r un egwyddorion adeiladu modiwlaidd ag adweithyddion SMR, sy'n eu gwneud yn fwy hyblyg. Mae technolegau amrywiol yn cael eu datblygu yn fyd-eang, ac ar hyn o bryd mae rhaglen Ymchwil, Datblygu ac Arddangos AMR y DU yn canolbwyntio ar Adweithyddion Nwy Tymheredd Uchel (HTGR). Nod y rhaglen hon yw galluogi rhaglen arddangos AMR erbyn dechrau'r 2030au fan bellaf.

## 2.2 Y System Gynllunio a Datganiadau Polisi Cenedlaethol

- 2.2.1 Mae fframwaith polisi cynllunio da yn hollbwysig er mwyn penderfynu ble y gellir adeiladu gorsafoedd ynni niwclear, a ble na ellir eu hadeiladu, yna hwyluso'r broses o'u rhoi ar waith yn yr ardaloedd hynny sy'n bodloni'r meini prawf. Ategir hyn gan y Map Ffordd Niwclear Sifil, sy'n dangos i ddatblygwyr a'r system gynllunio beth yw'r trywydd cyffredinol ar gyfer eu rhoi ar waith yn ystod y blynyddoedd nesaf.
- 2.2.2 Mae angen i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) gael caniatâd cynllunio a elwir yn 'gydsyniad datblygu' dan weithdrefnau a reolir gan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae hyn yn ymdrin â seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol, megis trafnidiaeth, dŵr ac ynni. Ar gyfer ynni, mae hyn yn cynnwys cynhyrchu niwclear, yn ogystal â dulliau eraill o gynhyrchu, trawsyrru a storio ynni. Ar gyfer pob prosiect o'r fath, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn archwilio'r cais, gan dderbyn tystiolaeth gan y ceisydd a phartion sydd â diddordeb, mewn proses drylwyr er mwyn sicrhau bod yr holl effeithiau – cadarnhaol a negyddol – yn cael eu hystyried a'u pwysu a'u mesur.
- 2.2.3 Mae gan NPSs rôl hollbwysig yn y cyswllt hwn gan eu bod yn amlinellu'r achos anghenion cenedlaethol ar gyfer y seilwaith perthnasol, fel y mae'n cael ei gynnig gan y llywodraeth a'i gymeradwyo gan y Senedd. Ar ôl iddynt ei archwilio ac ymgysylltu â phob parti sydd â diddordeb, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwneud

argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol, a fydd yn penderfynu a ddylid rhoi ynteu wrthod cydsyniad datblygu. Ar gyfer prosiectau ynni sy'n cynnwys niwclear, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net fydd yn gwneud hyn.

2.2.4 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn gymwys i Gymru a Lloegr, ac mae Deddf Cymru 2017 yn datganoli cymhwysedd am roi cydsyniad ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu trydan ag allbwn gosodedig o rhwng 10 Megawatt (MW) a 350MW (ar y tir ac ar y môr) i Weinidogion Cymru. Nid yw Deddf Cynllunio 2008 a'r system o roi cydsyniad ar gyfer Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn berthnasol i'r Alban nac i Ogledd Iwerddon.

## Y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar Ynni

2.2.5 Mae'r NPSs ar ynni yn amlinellu polisi cynllunio ar gyfer seilwaith ynni cenedlaethol ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer NSIPs ynni. Mae'r NPS cyffredinol ar Ynni (EN-1) yn amlinellu'r achos anghenion ar gyfer seilwaith ynni arwyddocaol, a'r pum NPS arall (EN-2 i EN-6) yn amlinellu polisi cynllunio ar gyfer technolegau ynni penodol.

2.2.6 Ar hyn o bryd, mae EN-6, ar y cyd ag EN-1, yn darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau cydsyniad datblygu ar geisiadau cynllunio ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear a fydd yn cael eu rhoi ar waith cyn diwedd 2025.

2.2.7 Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cydsyniad yn deg, yn effeithlon ac yn effeithiol, mae'n hollbwysig cynhyrchu NPS sy'n darparu datganiad clir o angen ar gyfer seilwaith penodol yn ogystal â chanllawiau clir i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r rheoleiddwyr. Cydnabyddir hyn yng Nghynllun Gweithredu'r llywodraeth ar gyfer Diwygiadau i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023<sup>14</sup>. Mae'r cynllun hwn yn pwysleisio pa mor bwysig yw cael NPSs cyfredol a chlr ar gyfer pob sector perthnasol, pwynt a bwysleisiwyd gan y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023<sup>15</sup>.

2.2.8 Yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain (BESS) yn 2022, gwnaethpwyd newidiadau perthnasol i fersiwn drafft EN-1 yr oedd angen ymgynghori ymhellach arnynt. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng misoedd Mawrth a Mehefin 2023 ac mae'r llywodraeth bellach yn ystyried yr ymatebion. Yn amodol ar ewyllys y Senedd, mae'r llywodraeth yn anelu at ddyodi'r NPS wedi'i ddiweddarau cyn gynted ag y bydd y broses statudol o roi gerbron y Senedd wedi'i chwblhau<sup>16</sup>.

2.2.9 Y llynedd, roedd y llywodraeth hefyd wedi lansio cynllun gweithredu ar gyfer diwygio NSIPs ac ymgynghoriad ar ddiwygiadau gweithredol i'r broses o roi cydsyniad i

---

<sup>14</sup> Llywodraeth y DU (2023) Nationally Significant Infrastructure Projects (NSIP) reforms: action plan. Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/publications/nationally-significant-infrastructure-projects-nsip-reforms-action-plan>

<sup>15</sup> Y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (2023). Infrastructure planning system. Ar gael yma: <https://nic.org.uk/studies-reports/infrastructure-planning-system/>

<sup>16</sup> Llywodraeth y DU (2023). Planning for new energy infrastructure: revisions to National Policy Statements. Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/consultations/planning-for-new-energy-infrastructure-revisions-to-national-policy-statements>

NSIPs<sup>17</sup>. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y system gynllunio yn gyffredinol yn gallu cefnogi ein hanghenion seilwaith yn y dyfodol drwy wneud y system yn well, yn gyflymach, yn wyrddach, yn decach, ac yn fwy cydnerth.

2.2.10 Mae'r fframwaith polisi cynllunio yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu prosiect seilwaith newydd. Mae prosesau rheoleiddio eraill sy'n gysylltiedig â'r broses gynllunio, ac y mae'n ofynnol iddynt gael eu cwblhau gan ddatblygwyr cyn y gall gorsaf ynni niwclear ddechrau gweithredu. Mae'r prosesau hyn yn cynnwys rhoi caniatâd, trwyddedu a chyfiawnhad rheoleiddiol, ac mae rhagor o fanylion amdanynt i'w gweld yn Adran Pump.

## 2.3 Y Datganiad Polisi Cenedlaethol niwclear

- 2.3.1 Cafodd EN-6 ei ddynodi yn 2011 ac mae'n amlinellu polisi cynllunio'r llywodraeth ar gyfer ynni niwclear newydd. Mae'n rhestru wyth safle yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu hystyried fel rhai a allai fod yn addas ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear ar waith cyn diwedd 2025. Y safleoedd hyn yw: Bradwell, Hartlepool, Heysham, Hinkley Point, Oldbury, Sellafield (a elwir hefyd yn Moorside), Sizewell a Wylfa. Dewiswyd y safleoedd yn dilyn asesiad o safleoedd a enwebwyd gan ddatblygwyr yn erbyn meini prawf lleoli strategol. Ar y pryd, yr unig dechnoleg niwclear gredadwy o safbwynt masnachol oedd cynhyrchu ar raddfa fawr (GW), a dewiswyd addasrwydd safleoedd ar sail hyn. Ym mis Mawrth 2013, llwyddodd EN-6 i hwyluso'r broses o roi DCO ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd yn Hinkley Point C. Rhoddwyd cydsyniad datblygu hefyd ar gyfer gorsaf ynni niwclear Sizewell C ym mis Gorffennaf 2022.
- 2.3.2 Yn 2017, cynigiodd y llywodraeth feini prawf lleoli wedi'u diweddarau, a chyhoeddodd y rhain ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ynghyd â'r broses arfaethedig ar gyfer asesu a dynodi safleoedd posibl. Ar y pryd, roedd y pwyslais yn parhau ar dechnoleg GW â chynnig i ddatblygu NPS newydd a oedd yn cario'r wyth safle a restrwyd yn EN-6 drosodd (ar wahân i Hinkley Point, a oedd eisoes wedi cael cydsyniad datblygu), â 2035 fel terfyn amser newydd, a lansio proses enwebu safleoedd newydd yng nghanol y 2020au. Cyhoeddodd y llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, cafodd gwaith pellach ar ddatblygu NPS niwclear newydd ei ddal yn ôl yn ystod y gwaith o ddatblygu Papur Gwyn ar Ynni 2020, a oedd yn gosod targedau sero net newydd ac yn nodi bod angen adolygu pob NPS ynni.
- 2.3.3 Gwelwyd newidiadau sylweddol yn y dirwedd niwclear ers dynodi EN-6 ac ymgynghoriad 2017/18. Mae lle i gredu y bydd technolegau niwclear datblygedig yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y degawd nesaf. Roedd adolygiad 2021, felly, yn dod i'r casgliad y dylid dynodi NPS niwclear newydd maes o law ar gyfer prosiectau ymholltiad niwclear y gellir eu rhoi ar waith ar ôl terfyn amser EN-6, sef 2025, ac y gallent o bosibl gynnwys SMRs ac AMRs.

---

<sup>17</sup>Llywodraeth y DU (2023). Consultation on operational reforms to the Nationally Significant Infrastructure Project (NSIP) consenting process. Ar gael yma: <https://www.gov.uk/government/consultations/operational-reforms-to-the-nationally-significant-infrastructure-project-consenting-process/consultation-on-operational-reforms-to-the-nationally-significant-infrastructure-project-consenting-process>



- 2.3.4 Er bod y broses ymgynghori hon yn cynnig newid yn y polisi o'i gymharu â'r hyn a ragwelwyd yn 2017, oherwydd bod mwy o amrywiaeth o dechnolegau niwclear ar gael, mae llawer o'r mewnbwn i ymgynghoriad 2017/18, yn enwedig o ran y meini prawf ar gyfer asesu safleoedd, yn dal yn berthnasol i waith datblygu polisi parhaus yn y maes hwn. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn y dull arfaethedig newydd a drafodir yn Adrannau Pedwar a Phump.
- 2.3.5 Yn 2021, daeth adolygiad o'r holl NPSs ynni i'r casgliad na ddylid tynnu EN-6 yn ôl na'i newid oherwydd ei fod yn dal ym gymwys i brosiectau y rhoddwyd cydsyniad iddynt oddi tano, gan gynnwys gwelliannau cysylltiedig i Orchmynion Cydsyniad Datblygu (DCO). Mae EN-6 hefyd yn dal yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio ar brosiectau niwclear y gellir eu rhoi ar waith ar ôl 2025. Mae'r EN-1 drafft a Datganiad Gweinidogol ysgrifenedig yn 2017 yn ailddatgan yr achos anghenion ar gyfer niwclear yng nghymysgedd ynni'r DU a phwysigrwydd a pherthnasedd parhaus EN-6.
- 2.3.6 Roedd strategaeth Powering Up Britain yn ymrwmo'r llywodraeth i ymgynghori ar strategaeth leoli newydd gyffredinol ar gyfer ynni niwclear, a fwriadwyd fel cam cyntaf tuag at ddynodi EN-7.

## Sefyllfa'r EN-6 presennol ar ôl 2025

- 2.3.7 Mae NPS niwclear EN-6 yn parhau'n gymwys yn ei gyfanrwydd ar hyn o bryd, ac yn cael ei ddefnyddio mewn ceisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd a restrwyd yn EN-6 a allai gael eu rhoi ar waith cyn diwedd 2025, a bydd yn parhau'n berthnasol i welliannau i geisiadau DCO ar gyfer y safleoedd hynny pan gaiff EN-7 ei ddynodi. Oherwydd hyn, nid yw'r llywodraeth yn cynnig tynnu EN-6 yn ôl. Mae EN-6 hefyd yn parhau'n ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw benderfyniad cynllunio yn ymwneud â gorsafoedd ynni niwclear a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025 dan Adran 105 o Ddeddf Cynllunio 2008<sup>18</sup>.
- 2.3.8 Mae'r llywodraeth yn hyderus bod EN-6 yn ymgorffori gwybodaeth, asesiadau a datganiadau a fydd yn dal yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniadau cydsyniad datblygu yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer prosiectau a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025. Mae hyn yn cynnwys yr asesiadau a oedd yn sail i ddewis yr wyth safle a restrir yn EN-6, y mae'r llywodraeth yn credu eu bod yn dal yn addas o bosibl ar gyfer datblygiad niwclear newydd ar ôl 2025. Er mai EN-7 fydd y brif sail ar gyfer penderfyniadau cydsyniad datblygu ar brosiectau niwclear a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025, yn amodol ar gael ei ddynodi gan y senedd, byddai'r llywodraeth yn disgwyl i EN-6 parhau'n ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw benderfyniad cydsyniad datblygu ar gyfer prosiect yn unrhyw un o'r safleoedd a restrir yn EN-6.
- 2.3.9 Byddai angen ystyried unrhyw brosiect arfaethedig ar safle a restrwyd yn EN-6 yn erbyn y meini prawf wedi'u diweddarau yn EN-7, ond yn ymarferol rydym yn cydnabod bod y safleoedd hyn yn debygol o fod â rhai manteision o hyd, megis gwaith pennu

---

<sup>18</sup> Deddf Cynllunio (2008). Ar gael yma: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/29/contents>

nodweddion safleoedd sy'n bodoli'n barod, gweithluoedd medrus a chysylltiadau grid. Mae'r llywodraeth yn croesawu diddordeb parhaus yn y safleoedd hyn.

- 2.3.10 Mae'r NPS cyffredinol ar Ynni, EN-1, hefyd yn cynnwys datganiadau ynglŷn â'r angen am ynni niwclear, yn ogystal ag asesiadau amgylcheddol ac asesiadau eraill sy'n dal yn berthnasol i brosiectau o'r fath, sy'n uniongyrchol berthnasol i benderfyniadau cydsyniad datblygu ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear. Yn ogystal, byddai drafft diwygiedig EN-1 yn gymwys ar gyfer pob agwedd ar benderfyniadau cydsyniad datblygu sy'n ymwneud â phrosiectau seilwaith ynni, p'un a oes NPS technoleg benodol mewn grym ai peidio. Wrth benderfynu a ddylid rhoi cydsyniad i ddatblygiad o'r fath, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd, dan adran 105(2)(c) o Ddeddf Cynllunio 2008, yn ystyried cynnwys EN-6. Lle nad oes newid perthnasol mewn amgylchiadau, mae'n debygol y rhoddid pwysoliad sylweddol i'r polisi yn EN-1 ac EN-6.
- 2.3.11 Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn a'r EN-7 drafft hefyd yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol dan adran 105(2)(c) o Ddeddf Cynllunio 2008 pan wneir penderfyniad ynglŷn â chais am gydsyniad datblygu ar gyfer unrhyw geisiadau a gyflwynir cyn cwblhau a dynodi EN-7. Os caiff ei ddynodi gan y senedd, bydd EN-7 yn disodli EN-6 a bydd yn gymwys i bob agwedd ar benderfyniadau cydsyniad datblygu sy'n ymwneud â cheisiadau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd, er bod y llywodraeth yn disgwyl y bydd EN-6 yn parhau'n bwysig ac yn berthnasol i unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â phrosiectau ar unrhyw rai o'r safleoedd a restrir yn EN-6.



## 3. Y Cynigion Polisi

### 3.1 Cyflwyniad

- 3.1.1. Mae'r adran a ganlyn yn disgrifio'r prif gynigion polisi ar gyfer lleoli gorsafoedd ynni niwclear newydd yn y DU ar ôl 2025, ac mae'n nodi'n benodol sut y maent yn wahanol i'r polisi presennol ar leoli ynni niwclear yn EN-6. Mae hefyd yn amlinellu newidiadau arfaethedig i Ddeddf Cynllunio 2008 i ehangu'r diffiniad o brosiectau ynni niwclear o arwyddocâd cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y system gynllunio, yn y dyfodol, yn ystyried pob prosiect ymholliad niwclear mewn ffordd unedig a chyson.
- 3.1.2. Mae cynlluniau'r llywodraeth i roi mwy o ynni niwclear sifil ar waith, a'r ffaith fod lle i gredu y bydd technolegau niwclear datblygedig newydd yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y degawd nesaf, yn golygu bod angen dull newydd o leoli gorsafoedd ynni niwclear newydd.
- 3.1.3. Wrth i'r gwaith o adfywio'r diwydiant niwclear yn y DU fynd rhagddo, cynigir polisi cynllunio newydd er mwyn hwyluso'r broses o roi technolegau newydd ar waith a sicrhau bod modd datblygu ar safleoedd newydd i gefnogi nodau diogelwch ynni a hinsawdd y DU. Bydd y rhan fwyaf o'r meini prawf y mae angen eu hystyried wrth leoli datblygiadau niwclear yn aros yr un fath ac yn parhau'n gyson ag EN-6. Amlinellir y prif newidiadau a'r cynigion polisi yn yr adran hon a cheir crynodeb ohonynt yn y pwyntiau bwled isod:
- **Ehangu cwmpas EN-7 i fod yn gymwys i brosiectau niwclear graddfa Gigawatt (GW) (capasiti niwclear mwy na 1000MW) ac Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR), sydd fel arfer â chapasiti cynhyrchu llai na 500MW.** Mae cynnwys adweithyddion modiwlaid llai yn un o'r prif newidiadau o'i gymharu ag EN-6. Bydd adweithyddion modiwlaid datblygedig (AMR) sy'n cynhyrchu gwres ac ynni hefyd yn dod yn rhan o gwmpas EN-7.
  - **Grymuso datblygwyr<sup>19</sup> i ddewis safleoedd ar gyfer datblygiad niwclear, gan ddefnyddio meini prawf a bennwyd yn yr NPS, i agor mwy o gyfleoedd lleoli tra'n cyfyngu ar ddatblygu mewn ardaloedd anaddas.** Yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) eraill ar ynni, bydd hyn yn rhoi'r datblygwr ar flaen y gad wrth ddewis safleoedd, a bydd yn grymuso datblygwyr i asesu addasrwydd safleoedd posibl ar sail y meini prawf asesu safleoedd yn EN-7. Mae'r meini prawf asesu arfaethedig yn debyg at ei gilydd i'r meini prawf strategol yn EN-6, ac yn cwmpasu ystyriaethau diogelwch a diogeledd niwclear, effeithiau amgylcheddol a gofynion gweithredol.
  - **Cael gwared ar derfynau amser yn yr NPS ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar waith er mwyn cefnogi cynllunio hirdymor yn well.** Mae'r llywodraeth yn credu y byddai hyn yn hwyluso'r broses o ddatblygu

---

<sup>19</sup> Yn y ddogfen hon gall cyfeiriadau at ddatblygwr/datblygwyr olygu datblygwr niwclear annibynnol a/neu Great British Nuclear yn gweithredu fel datblygwr niwclear.

cyflenwad mwy hirdymor o ddatblygiadau niwclear i gefnogi uchelgeisiau niwclear y DU.

- 3.1.4. Bydd datblygiadau niwclear yn parhau'n ddarostyngedig i'r mesurau rheoli rheoleiddiol cadarn sydd, ymhlith pethau eraill, yn diogelu'r cyhoedd, ac yn diogelu'r amgylchedd. Bydd y caniatadau a'r trwyddedau perthnasol yn ofynnol o hyd, ynghyd â Chyfiawnhad Rheoleiddiol<sup>20</sup>, ac argymhellir cwblhau Asesiad Dyluniad Generig (GDA)<sup>21</sup>. Bydd y prosesau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a nodir yn y system genedlaethol ar gyfer cynllunio seilwaith yn dal yn gymwys hefyd.
- 3.1.5. Byddwn yn sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn gyson â'r broses Asesu Effaith Amgylcheddol bresennol, yn ogystal â'r Adroddiadau Canlyniad Amgylcheddol arfaethedig<sup>22</sup>, a byddwn yn darparu manylion pellach ynglŷn â hyn yn y fersiwn drafft o ddogfen EN-7.

## 3.2 Y prif gynigion polisi

Ehangu'r dechnoleg a fydd yn cael ei chynnwys yn yr NPS newydd

- 3.2.1 Dynodwyd EN-6 yn 2011 ar adeg pan nad oedd technoleg arall ar gael yn fasnachol ar wahân i adweithyddion mawr ar raddfa GW. Ers hynny, mae technoleg adweithyddion niwclear wedi datblygu'n gyflym, ac erbyn hyn mae'n realistig credu y gallai Adweithyddion Modiwlaid Datblygedig (AMR) ac Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR) gael eu rhoi ar waith yn y degawd nesaf. Mae'r llywodraeth yn credu bod angen cynnig adweithyddion ar raddfa GW, SMRs ac AMRs er mwyn sicrhau bod y DU yn cyflawni ei uchelgeisiau ynni. O ganlyniad, y bwriad yw bod EN-7 yn darparu hyblygrwydd ar gyfer lleoli prosiectau niwclear graddfa GW a phrosiectau niwclear datblygedig ar unrhyw safle sy'n bodloni'r meini prawf lleoli. Mae gennym bellach fwy o ddealltwriaeth o'r technolegau newydd hyn, a'r farn yw y dylid ystyried materion cynllunio ar gyfer niwclear newydd mewn ffordd gydgyssylltiedig yn yr NPS newydd.
- 3.2.2 Rydym yn cydnabod bod gwahaniaethau rhwng y technolegau datblygedig hyn a gorsafoedd ynni graddfa GW traddodiadol, yn fwyaf arbennig maint adweithyddion

---

<sup>20</sup> Mae Cyfiawnhad Rheoleiddiol yn asesiad lefel uchel, heb fod ar gyfer safle penodol, lle mae ymarferion sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio yn cael eu grwpio yn 'ddosbarthiadau' neu 'fathau' o ymarferion. Darperir cyngor cyn ymgeisio gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net drwy'r ganolfan ceisiadau cyfiawnhad rheoleiddiol. Rhaid i'r Awdurdod Cyfiawnhau ar gyfer gorsafoedd niwclear fod 'ar wahân yn weithredol' i'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ), felly er y gall DEFRA ofyn am gyngor ynglŷn â phroses, ni ddylai DESNZ fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Gellir cael cyfiawnhad cyn y prosesau rheoleiddio eraill. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-justification-decisions-on-nuclear-reactors>.

<sup>21</sup> Mae Asesiad Dyluniad Generig yn broses ddadrisgio wirfoddol lle mae rheolyddion niwclear yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod unrhyw orsafoedd ynni niwclear sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru a Lloegr yn cyrraedd safonau uchel o ran diogelwch, diogeled, diogelu'r amgylchedd, a rheoli gwastraff. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <https://www.onr.org.uk/new-reactors/guidance-assessment.htm>.

<sup>22</sup> Llywodraeth y DU (2023). Government sets out adaptation programme to tackle climate impact. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/government-sets-out-adaptation-programme-to-tackle-climate-impact> System asesiad amgylcheddol arfaethedig newydd. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/consultations/environmental-outcomes-reports-a-new-approach-to-environmental-assessment/environmental-outcomes-report-a-new-approach-to-environmental-assessment>

a'r defnydd posibl o systemau oeri amgen. Fodd bynnag, ein hasesiad yw y bydd angen i ddatblygwyr SMR ac AMR ystyried pryderon tebyg yn ymwneud â diogelwch a diogeldd niwclear, effeithiau amgylcheddol a gofynion gweithredol fel y rhai ar gyfer gorsafoedd ynni graddfa GW. Oherwydd y tebygrwydd yma, nid ydym wedi nodi bod angen set ar wahân o feini prawf lleoli nac NPS ar wahân ar gyfer SMRs ac AMRs.

**3.2.3 O ganlyniad, bydd EN-7 yn amlinellu, am y tro cyntaf, bolisi cynllunio sy'n gymwys i safleoedd ar gyfer prosiectau niwclear graddfa GW (mwy na 1000 Megawatt (MW) o gapasiti niwclear) ac SMRs, sydd fel arfer â chapasiti cynhyrchu llai na 500 MW. Bydd y fframwaith polisi cynllunio hwn hefyd yn gymwys i AMRs sy'n cynhyrchu gwres ac ynni.**

3.2.4 Dylid nodi y byddai adweithyddion ymchwil ag allbwn cynhyrchu llai na 50MW yn Lloegr ac adweithyddion sydd ddim ond yn cael eu defnyddio i gynhyrchu radioisotopau meddygol fel arfer yn dal i gael cydsyniad drwy'r llwybr cynllunio lleol. Fel EN-6, dim ond gorsafoedd cynhyrchu ynni fydd yn rhan o gwmpas EN-7.

3.2.5 Yn ychwanegol at hyn, mae'r ymgynghoriad hwn ynglŷn â lleoli a'r EN-7 arfaethedig yn canolbwyntio ar ymholliad niwclear yn unig. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i gynhyrchu NPS ar wahân ar gyfer ynni ymholliad oherwydd y gwahaniaethau sylfaenol mewn technoleg.

**Cwestiwn 1:** Mae EN-6 yn gymwys i brosiectau graddfa GW yn unig. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig y dylai EN-7 fod yn gymwys i brosiectau graddfa GW, a hefyd i SMRs ac AMRs. Beth yw eich barn chi ynglŷn â chynnyg y llywodraeth i ehangu'r ystod o dechnolegau y bydd yr NPS niwclear newydd yn ymwneud â hwy?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda (testun rhydd, 300 gair)

**Dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer niwclear newydd**

3.2.6 Roedd EN-6 yn unigryw yn y gyfres o NPSs ynni gan ei fod yn dynodi wyth lleoliad daearyddol penodol a allai fod yn addas ar gyfer rhoi niwclear ar waith cyn 2025. Ar y pryd, credid mai cyfeirio sylw datblygwyr tuag at restr benodol o safleoedd oedd y ffordd orau o ddiwallu'r angen brys am ynni niwclear newydd i gefnogi nodau diogelwch ynni a hinsawdd y DU. Fodd bynnag, er bod EN-6 wedi galluogi cydsyniad datblygu ar gyfer prosiect Hinkley Point C a darparu gwybodaeth ar gyfer y penderfyniad i roi cydsyniad i Sizewell C, mae llai o brosiectau nag a ragwelwyd yn wreiddiol wedi cael cydsyniad dan EN-6.

- 3.2.7 Yn unol â'r angen brys am ynni carbon isel a nodir yn yr NPS ynni trosfwaol EN-1, mae'r llywodraeth yn credu bod angen niwclear newydd ar frys, ac y dylai niwclear gyfrannu cymaint ag sy'n bosibl tuag at angen y DU am gapasiti trydan newydd. Er nad yw'n bosibl darogan a fydd un neu ragor o adweithyddion ym mhob un o'r wyth safle a restrir yn EN-6, byddai cael un adweithydd ym mhob un o'r wyth safle yn arwain at hyd at 14GW o gapasiti niwclear, gan ddibynnu ar y dechnoleg a ddewisir<sup>23</sup>. O ganlyniad, mae'n debyg y bydd angen rhagor o safleoedd er mwyn cyflawni uchelgais niwclear y DU o gyrraedd hyd at 24GW o gapasiti niwclear erbyn 2050.
- 3.2.8 Yr hyn sy'n glir yw y gallai'r safleoedd penodol sy'n fwyaf addas ar gyfer technolegau niwclear datblygedig fod yn wahanol i'r rhai sy'n addas ar gyfer gorsafoedd GW ar raddfa fawr. Bydd gan rai AMRs ac SMRs, er enghraifft, ôl troed safle a gofynion oeri dŵr gwahanol o'u cymharu â gorsafoedd GW, sy'n cynnig y potensial ar gyfer datblygiadau niwclear mewn rhai lleoliadau nad ydynt ar yr arfordir. Mae datblygiadau technolegol hefyd yn galluogi cynhyrchu allbynnau eraill yn ogystal â thrydan yn effeithlon, a gallai defnydd terfynol amgen o'r fath hybu ystyriaeth o fathau newydd o safleoedd. Er enghraifft, gallai lleoli adweithyddion sy'n cynhyrchu gwres tymheredd uchel yn agos at safleoedd diwydiannol sydd angen y gwres i ddatgarboneiddio eu gweithrediadau fod yn fanteisiol. O ganlyniad, y bwriad yw sicrhau bod yr NPS newydd yn ddigon hyblyg i alluogi amrywiaeth o opsiynau lleoli. O ystyried nifer y senarios posibl ar gyfer rhoi cyfleusterau niwclear llai a mwy amrywiol ar waith, i gefnogi amrywiaeth o ddefnyddiau terfynol, mae angen mwy o hyblygrwydd parhaus yn y broses o ddewis safleoedd. Y polisi arfaethedig, felly, yw na fydd EN-7 yn dynodi nac yn nodi lleoliadau ar gyfer datblygiad niwclear newydd; yn hytrach cynigir dull gweithredu a fydd yn seiliedig ar feini prawf. Fodd bynnag, credwn y bydd y safleoedd a ddynodir yn EN-6 yn cadw'r priodoleddau cadarnhaol cynhenid sy'n golygu eu bod yn addas i'w hystyried ar gyfer datblygu ac rydym yn croesawu datblygwyr i ddangos diddordeb yn y safleoedd hyn
- 3.2.9 Nid yw hyn yn golygu y gall datblygu ddigwydd ym mhob man. Bydd lleoli yn dal i gael ei gyfyngu gan feini prawf cadarn a fydd yn pennu lle gall datblygiad ddigwydd. Mae'n dal yn hollbwysig bod ystyriaethau lleoli yn parhau i gwmpasu ffactorau diogelwch a diogeledd niwclear, effeithiau amgylcheddol gan gynnwys gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gofynion gweithredol, yn ogystal â meini prawf eraill, megis dwysedd poblogaeth, sy'n cyfyngu ar ble gall datblygiad ddigwydd. Yn unol â pholisi cynllunio da, mae'r llywodraeth yn fwyaf arbennig yn annog ceisiadau i ddatblygu ar dir a arferai fod yn dir diwydiannol a thir llwyd.
- 3.2.10 Mae'r bwriad i newid i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn golygu nad yw Llywodraeth y DU mwyach yn credu ei bod yn briodol cynnal proses enwebu ac asesu safleoedd strategol er mwyn nodi safleoedd posibl. Mae'r llywodraeth yn credu bod datblygwyr mewn gwell sefyllfa i ddod o hyd i safleoedd posibl ac yna'u sgrinio gan ddefnyddio'r meini prawf asesu safleoedd a nodir yn EN-7. Roedd yr asesiad o safleoedd strategol a oedd yn cael ei arwain gan y llywodraeth bob amser yn ategiad i'r broses DCO ac nid yn rhywbeth yn lle'r ystyriaethau manwl ar lefel prosiect sy'n ofynnol wrth i gais fynd yn ei flaen

---

<sup>23</sup> Llywodraeth y DU (2011). Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol am Ynni (EN-1). Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a78a66b40f0b62b22cbbaf7/6185-datganiad-polisi-cenedlaethol.PDF>

drwy'r system gynllunio. Drwy gael gwared ar y cam ffurfiol hwn, rydym wedi symleiddio'r broses, gan alluogi datblygwyr sydd â'r wybodaeth fanwl i ganolbwyntio'r asesiadau hyn ar brosiect penodol, â thechnoleg arbennig, o fewn ffiniau safle a ddewiswyd. Disgwylir y bydd proses sy'n seiliedig ar feini prawf yn arwain at fwy o hyblygrwydd ac arloesi yn y farchnad, â gwybodaeth datblygwyr yn darparu proses sgrinio ac asesu fwy effeithlon ar gyfer lleoli'r ystod ehangach o dechnolegau niwclear a allai fod ar gael.

**3.2.11 Yn y dyfodol, disgwylir felly y bydd datblygwyr yn cael eu grymuso i wneud gwaith sgrinio safleoedd cychwynnol yn y cam cyn ymgeisio, â chyingor gan y rheoleiddwyr fel y bo'n briodol.** Bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yn rhoi cyngor ynglŷn â'r cais yn y camau perthnasol drwy brosesau'r Arolygiaeth Gynllunio. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, bydd angen i ddatblygwyr niwclear roi sylw i effeithiau penodol sy'n deillio o'u prosiectau yn eu ceisiadau DCO. Ystyrir gwybodaeth bellach am y broses arfaethedig ar gyfer dewis safleoedd yn Adrannau Pedwar a Phump.

**3.2.12 Ni fydd ffenestr enwebiadau benodol ar gyfer safleoedd newydd. Gall datblygwyr gyflwyno cais pa bryd bynnag y credir ei fod yn barod i'w gyflwyno, ar ôl ymgynghori â sefydliadau perthnasol, gan gynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio, rheoleiddwyr, ac asiantaethau statudol.**

3.2.13 Byddai'r dull arfaethedig hwn o leoli prosiectau niwclear newydd yn dod ag EN-7 yn unol â'r holl NPSs eraill ar ynni. Bydd EN-7 hefyd yn gyson â'r achos anghenion ychwanegol a nodir yn y fersiwn diwygiedig o EN-1, ac yn cyfeirio ato.

3.2.14 Rhaid i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar gyfer yr NPS gynnwys ystyriaeth o ddewisiadau amgen rhesymol yn lle'r cynllun a ffeirir. Yn dilyn ymgynghoriad ar yr EN-7 drafft, bydd y llywodraeth yn diweddarau'r AoS a'r HRA perthnasol<sup>24</sup>.

**Cwestiwn 2:** Mae EN-6 yn cynnwys safleoedd posibl a aseswyd gan y llywodraeth. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig y dylai EN-7 rymuso datblygwyr i asesu a nodi safleoedd posibl gan ddefnyddio meini prawf cadarn. Beth yw eich barn ynglŷn â chynnig y llywodraeth i newid ei pholisi lleoli niwclear i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf

---

<sup>24</sup> Mae'r AoS ar gyfer EN-6 (2010) ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/appraisal-of-sustainability-of-the-revised-draft-nuclear-national-policy-statement>. Bydd yr NPS newydd yn "gynllun" at ddibenion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Mae'r HRA o EN-6 ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/habitats-regulations-assessment-of-the-revised-draft-nuclear-national-policy-statement>. Mae manylion pellach am yr asesiadau amgylcheddol i'w gweld ym Mhennod 2, paragraff 2.7.



- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

## Cael gwared ar y terfynau amser ar gyfer rhoi niwclear ar waith

- 3.2.15 Cafodd y safleoedd sy'n cael eu rhestru yn EN-6 eu hasesu yn ôl eu gallu i roi gorsafoedd ynni niwclear graddfa GW ar waith erbyn 2025. Defnyddiwyd y gorwel cynllunio hwn i ganolbwyntio ar y safleoedd sydd fwyaf tebygol o gael eu rhoi ar waith yn fuan. Cafodd ei ddefnyddio hefyd er mwyn galluogi rhestr realistig y gellir ei rheoli o safleoedd i ddatblygwyr ganolbwyntio arnynt. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y deunyddiau adeiladu a'r sgiliau sydd ar gael, yn ogystal â graddfeydd amser disgwylidig ar gyfer penderfyniadau buddsoddi a thrwyddedu priodol.
- 3.2.16 Rydym yn dal i gydnabod pwysigrwydd cael prosiectau ynni newydd cyn gynted ag y bo modd. Mae'r EN-1 diwygiedig yn amlinellu achos anghenion manylach, sy'n pwysleisio pwysigrwydd prosiectau ynni newydd er mwyn bodloni'r cynnydd yn y galw, cefnogi datgarboneiddio fforddiadwy a sicrhau bod gan y DU system ynni ddibynadwy a diogel. Mae ynni niwclear yn chwarae rôl hollbwysig yn hyn, gan ddarparu ffynhonnell ynni gyson a charbon isel.
- 3.2.17 Fodd bynnag, mae uchelgeisiau niwclear y llywodraeth yn galw am hyblygrwydd parhaus wrth ddewis safleoedd a gorwel mwy hirdymor sy'n agor mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoli. Gallai cynnwys terfyn amser ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear ar waith yn EN-7 gyfyngu ar ddatblygiad cyflym technoleg niwclear ac ar yr amser y mae'n ei gymryd i gwblhau prosiectau niwclear. **O ganlyniad, cynigir na ddylai EN-7 orfodi unrhyw derfynau amser ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear ar waith.**
- 3.2.18 Byddai cael gwared ar y gorwel amser ar gyfer rhoi prosiectau ar waith a mwy o hyblygrwydd wrth nodi safleoedd i'w datblygu yn gwneud EN-7 yn gydnaws â'r NPSs ynni eraill.

**Cwestiwn 3:** Mae EN-6 yn cynnwys terfyn amser ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar waith. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig na ddylai EN-7 gynnwys terfynau amser er mwyn cefnogi cynllunio hirdymor. Beth yw eich barn ynglŷn â chynnig y llywodraeth i newid ei bolisi lleoli gorsafoedd niwclear i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar ffrâm amser heb gyfyngiadau?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 4:** Mae'r NPS yn ceisio darparu mwy o hyblygrwydd i amrywio safleoedd niwclear er mwyn helpu i gyflawni ein huchelgeisiau Sero Net, tra'n sicrhau bod lleoli gorsafoedd ynni niwclear newydd yn cael ei gyfyngu'n briodol gan feini prawf priodol. I ba raddau rydych yn cytuno bod y prif gynigion polisi a amlinellir yn yr adran hon (*ymestyn yr NPS i dechnolegau newydd, mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer lleoli datblygiadau newydd, a chael gwared ar y terfyn amser er mwyn agor mwy o safleoedd*) yn cyflawni'r nodau hyn?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

## Newidiadau arfaethedig i Ddeddf Cynllunio 2008 i gefnogi NPS niwclear newydd

3.2.19 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn amlinellu'r fframwaith cynllunio seilwaith cenedlaethol cyffredinol, gan gynnwys y gorsafoedd cynhyrchu yr ystyrir eu bod yn Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Ar hyn o bryd, mae'r diffiniad o 'orsaf gynhyrchu' yn gymwys dim ond i'r gorsafoedd ynni hynny sy'n cynhyrchu trydan, naill ai fel unig gynnyrch terfynol neu yn ogystal â gwres uniongyrchol neu danwydd synthetig, gan gynnwys hydrogen. Nid yw adweithyddion niwclear sydd ddim ond yn cynhyrchu gwres neu danwydd synthetig wedi'u dosbarthu fel NSIPs ar hyn o bryd.

3.2.20 **Mae'r llywodraeth yn bwriadu ehangu cwmpas y diffiniad o NSIP i gynnwys adweithyddion gwres yn unig a thanwydd synthetig yn unig, a bydd angen deddfwriaeth i ddiwygio'r Ddeddf Cynllunio.** Yn amodol ar amser seneddol, gallai'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol gael eu cyflwyno cyn i EN-7 gael ei ddynodi.

3.2.21 Fodd bynnag, pe bai unrhyw brosiectau adweithyddion gwres yn unig neu danwydd synthetig yn unig yn barod i fynd i'r broses gynllunio cyn i dechnolegau o'r fath gael eu cynnwys yn system yr NSIP, mae llwybrau cydsynio cenedlaethol ar gael i ddatblygwyr (er enghraifft, gall yr Ysgrifennydd Gwladol 'alw prosiectau i mewn' i gael eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio dan Adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a gall dderbyn ceisiadau fel gorchmynion cydsyniad datblygu dan Adran 35 o Ddeddf Cynllunio 2008). Rhagwelir y byddai EN-7 yn ystyriaeth berthnasol mewn unrhyw archwiliad a phenderfyniad cynllunio dilynol.

3.2.22 Yn ogystal, ar hyn o bryd, dim ond gorsafoedd ynni niwclear â chapasiti cynhyrchu o fwy na 50MW yn Lloegr sy'n cael eu hystyried yn NSIPs. O ganlyniad, byddai ceisiadau cynllunio ar gyfer prosiectau o dan 50MW fel arfer yn cael eu harchwilio ac yn cael cydsyniad drwy'r broses gynllunio leol. Fodd bynnag, mae'n anodd

cyfiawnhau defnyddio dulliau cynllunio a lleoli gwahanol ar gyfer adweithyddion mawr a bach gan fod llawer o'r technolegau yn debyg ac allbwn ynni cyffredinol y gorsafoedd cynhyrchu yn gallu bod yn ddigon tebyg ar y cyfan lle caiff adweithyddion bach eu rhoi ar waith ar raddfa fawr.

3.2.23 Er 2019, mae Gweinidogion Cymru wedi cael pwerau i roi cydsyniad i orsafoedd cynhyrchu yng Nghymru sydd ag allbwn o rhwng 10MW a 350MW. Caiff ceisiadau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu yng Nghymru sydd ag allbwn uwch na 350MW eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio a rhoddir cydsyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion polisi i sefydlu proses unedig ar gyfer rhoi cydsyniad seilwaith i 'brosiectau seilwaith arwyddocaol,' sy'n cynnwys gorsafoedd ynni niwclear â chapasiti cynhyrchu gosodedig o rhwng 50MW a 350MW. Ni fydd unrhyw newidiadau a gyflwynir i Ddeddf Cynllunio 2008 yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru i roi cydsyniad i orsafoedd cynhyrchu yng Nghymru sydd ag allbwn cynhyrchu rhwng 50MW a 350MW.

3.2.24 **O ystyried cymhlethdod pob prosiect niwclear a'r potensial i geisiadau ddefnyddio technolegau 'cyntaf o'u bath', mae'r llywodraeth yn cynnig cynnwys pob cais ar gyfer prosiect cynhyrchu niwclear yn Lloegr, gan gynnwys y rhai sydd ar hyn o bryd o dan y trothwy 50MW, o fewn y system gynllunio seilwaith genedlaethol.** Byddai hyn hefyd yn golygu bod angen deddfwriaeth i ddiwygio Deddf Cynllunio 2008. Maes o law, bydd y diwygiadau deddfwriaethol angenrheidiol yn cael eu gwneud i Ddeddf Cynllunio 2008, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn a'r broses graffu seneddol arferol. Cyn y bydd newidiadau o'r fath yn dod i rym, rhagwelir y byddai EN-7 yn ystyriaeth berthnasol wrth archwilio ceisiadau ar gyfer y prosiectau hyn drwy'r system gynllunio leol.

**Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno deddfwriaeth i gynnwys pob prosiect ymholliad niwclear yn y system NSIP yn Lloegr, gan gynnwys adweithyddion ag allbwn cynhyrchu llai na 50MW ac adweithyddion sy'n cynhyrchu gwres yn unig neu danwydd synthetig yn unig, megis hydrogen?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 6:** A oes gennych dystiolaeth neu wybodaeth dechnegol ynglŷn ag adweithyddion ymholliad sy'n cynhyrchu gwres yn unig neu danwydd synthetig yn unig a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i benderfynu a ddylid eu cynnwys yn yr NPS niwclear ar ôl 2025? (Testun rhydd, 300 gair)



## 4 Meini prawf lleoli niwclear

### 4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Mae'r adran a ganlyn yn trafod y meini prawf asesu safleoedd arfaethedig a ddefnyddir gan ddatblygwyr i asesu addasrwydd eu safleoedd prosiect arfaethedig.
- 4.1.2 Mae meini prawf lleoli cadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gorsafoedd ynni niwclear yn cael eu lleoli'n briodol ac yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n gyson â nodau'r DU ar gyfer ynni, addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd tra'n lleihau risgiau ac yn cynyddu manteision.
- 4.1.3 Defnyddiwyd y meini prawf lleoli strategol presennol gan y llywodraeth i asesu addasrwydd posibl safleoedd a enwebwyd gan y diwydiant yn 2009. Defnyddiodd y llywodraeth yr asesiad hwn i nodi wyth safle fel rhai a allai fod yn addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear cyn diwedd 2025, a restrwyd yn EN-6.
- 4.1.4 Er ein bod yn cynnig rhai newidiadau i'n dull polisi yn yr NPS newydd (EN-7), rydym wedi adolygu'r meini prawf presennol ac rydym yn cynnig eu cadw er mwyn penderfynu ynglŷn ag addasrwydd posibl safleoedd ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd ar ôl 2025. Mae'r llywodraeth wedi adolygu'r meini prawf lleoli strategol ac wedi nodi bod angen cyflwyno unrhyw feini prawf lleoli ychwanegol er mwyn gallu rhoi gorsafoedd ynni niwclear ar waith yn ddiogel. Fodd bynnag, gan na fyddant yn cael eu defnyddio mwyach ar gyfer asesiad safle strategol, byddwn yn cyfeirio at y meini prawf yn EN-7 yn hytrach fel 'meini prawf asesu safle'.
- 4.1.5 Rydym wedi ystyried a oes angen dull gweithredu gwahanol ar gyfer lleoli Adweithyddion Modiwlaid Bach (SMR) ac Adweithyddion Modiwlaid Datblygedig (AMR). Mae rhai gwahaniaethau rhwng y technolegau hyn a gorsafoedd ynni niwclear (GW) mawr traddodiadol, yn fwyaf arbennig, maint yr adweithydd a'r potensial ar gyfer technolegau oeri nad ydynt yn defnyddio dŵr. Fodd bynnag, ein hasesiad yw y bydd angen i bob un o'r mathau hyn o dechnolegau ystyried diogelwch a diogeledd niwclear, effeithiau amgylcheddol a gofynion gweithredol wrth nodi a yw'r safle a ddewiswyd ganddynt yn addas. Yn ein barn ni felly, mae meini prawf lleoli strategol EN-6 yn parhau'n berthnasol ac yn gymwys i dechnolegau niwclear GW, SMR ac AMR. Nid ydym wedi nodi bod angen cyflwyno set ar wahân o feini prawf sy'n ymwneud yn benodol â thechnolegau niwclear datblygedig, er ein bod yn nodi y gallai rhai meini prawf (megis Prosesau Arfordirol) fod yn llai cymwys i rai safleoedd, y bydd angen eu hasesu fesul prosiect unigol.
- 4.1.6 Bydd angen i union natur pob asesiad safle unigol fod yn gymesur â maint y prosiect a'r math o adweithydd, gan gynnwys ystyried a oes mwy nag un adweithydd neu wahanol dechnolegau niwclear yn cael eu cynnig ar yr un safle.
- 4.1.7 Mae'r llywodraeth hefyd yn cydnabod bod technolegau SMR ac AMR yn creu cyfleoedd newydd, gan gynnwys y posibilrwydd o well diogelwch a gwahanol ddefnyddiau terfynol. Er enghraifft, efallai y byddai'n fuddiol galluogi i adweithyddion niwclear sy'n cynhyrchu gwres gael eu lleoli yn nes at ddefnyddwyr y gwres a

gynhyrchir. Gallai hyn olygu y bydd angen i adolygiadau o'r NPS yn y dyfodol gael rhagor o ddiweddariadau i'r meini prawf lleoli er mwyn galluogi'r cyfleoedd hyn yn well pan fydd tystiolaeth bellach ar gael.

4.1.8 Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'r meini prawf asesu safle arfaethedig yng ngweddill adran 4.

## 4.2 Meini Prawf Asesu Safle Arfaethedig

4.2.1 Mae'r tabl a ganlyn yn rhestru'r meini prawf asesu safle y bwriadwn eu cynnwys yn EN-7, a fyddai'n cael eu defnyddio i asesu addasrwydd posibl safleoedd ar gyfer gorsafoddd ynni niwclear newydd yn y cam cyn ymgeisio. Mae'r meini prawf asesu safle hyn yr un fath at ei gilydd â'r meini prawf lleoli strategol a ddefnyddir yn EN-6.

**Tabl 1: Rhestr o Feini Prawf Asesu Safle Arfaethedig**

\*Yn ogystal â diogelwch niwclear, mae'r meini prawf hefyd yn cynnwys elfennau pwysig yn ymwneud â diogelu'r amgylchedd.

Thema	Meini Prawf	Dewisol neu waharddol
Diogelwch a Diogeled Niwclear	Llifogydd, tswnami ac ymchwydd storm*	Dewisol
	Prosesau arfordirol *	Dewisol
	Agosrwydd at safleoedd peryglon mawr a phiblinellau peryglon damweiniau mawr	Dewisol
	Agosrwydd at symudiadau awyrennau sifil	Dewisol
	Dwysedd poblogaeth a nodweddion lleoliadol	Gwaharddol + dewisol
	Agosrwydd at weithgareddau milwrol	Gwaharddol + dewisol
Diogelu'r Amgylchedd	Safleoedd o bwysigrwydd ecolegol â dynodiad rhyngwladol	Dewisol
	Safleoedd o bwysigrwydd ecolegol â dynodiad cenedlaethol	Dewisol
	Ardaloedd gwerthfawr o ran amwynder a thirwedd	Dewisol
	Treftadaeth ddiwylliannol	Dewisol
Gofynion gweithredol	Maint y safle ar gyfer gweithredu	Dewisol
	Mynediad at ffynonellau oeri addas	Dewisol

- 4.2.2 Fel y gwelir yn y tabl uchod, dim ond dau o'r meini prawf – dwysedd poblogaeth a nodweddion lleoliadol ac agoswydd at weithgareddau milwrol – sy'n waharddol ac yn ddewisol. O ganlyniad, caiff safleoedd nad ydynt yn bodloni elfennau gwaharddol y meini prawf hyn eu hystyried yn anaddas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear. Mae'r meini prawf eraill yn ddewisol yn unig. Gellir ystyried bod safleoedd yn addas ar gyfer gorsaf niwclear hyd yn oed os nad ydynt yn bodloni meini prawf dewisol unigol yn llawn, ond gall peidio â mynd i'r afael yn llawn â nifer o feini prawf dewisol arwain yn y pen draw at ystyried bod safle yn anaddas.
- 4.2.3 Bydd meini prawf asesu safle EN-7 yn ffurfio un rhan o broses y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Bydd angen i ddatblygwyr hefyd ddal i ystyried meini prawf asesu eraill yn ystod cam y cais DCO a fydd yn dal yn berthnasol pan gaiff EN-7 ei ddynodi. Y meini prawf asesu hyn yw:
- y meini prawf cyffredinol a amlinellir yn yr NPS cyffredinol am ynni (EN-1), sy'n nodi'r fframwaith cyffredinol ar gyfer pob seilwaith ynni o arwyddocâd cenedlaethol;
  - yr effeithiau penodol o safbwynt niwclear ac ystyriaethau polisi a amlinellir yn EN-6 (a fydd yn cael ei ddisodli gan EN-7).
- 4.2.4 Mae rhagor o wybodaeth am yr elfennau eraill hyn a'r broses gynllunio i'w gweld yn Atodiadau 1 a 2.

## 4.3 Ystyriaeth Fanwl o Feini Prawf Asesu Safle Penodol

- 4.3.1 Caiff y manylion penodol ar gyfer meini prawf asesu safle yn EN-7, y bydd angen i ddatblygwyr roi sylw iddynt yn eu ceisiadau DCO, eu datblygu yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn yr EN-7 drafft, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad maes o law. Mae'r adran hon yn archwilio nifer o ddatblygiadau polisi ar gyfer meini prawf penodol a nodwyd gan y llywodraeth. Mae'r datblygiadau polisi hyn yn deillio'n bennaf o'r newid i ddull gweithredu newydd sy'n seiliedig ar feini prawf yn EN-7.
- 4.3.2 Mae'r is-adrannau a ganlyn yn nodi:
- y meini prawf asesu safle yr effeithir arnynt o ganlyniad i newidiadau i ddull gweithredu'r polisi lleoli;
  - y materion hynny a gafodd eu hystyried ar gyfer eu cynnwys fel meini prawf asesu safle newydd, ond y penderfynwyd peidio â'u cynnwys;
  - y materion asesu safle hynny heb ddatblygiadau arwyddocaol.

## Meini Prawf Asesu Safle yr effeithir arnynt o ganlyniad i'n prif gynigion polisi

### Llifogydd, tswnami ac ymchwydd storm a phrosesau arfordirol

- 4.3.3 Mae perygl llifogydd yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw brosiect seilwaith mawr, ac mae wedi'i gynnwys fel rhan o'r maen prawf Llifogydd, Tswnami ac Ymchwydd Storm yn EN-6. Mae'n bwysig nodi bod perygl llifogydd wedi'i gynnwys yn EN-6, a bod yn rhaid i ddatblygwyr hefyd sicrhau bod eu cynigion yn bodloni'r gofynion perygl llifogydd yr ymdrinnir â hwy mewn dogfennau fframwaith cynllunio eraill. Ein hasesiad ni yw bod yr ystyriaethau perygl llifogydd manwl yr ymdrinnir â hwy yn EN-1 yn parhau'n berthnasol ac yn briodol, a'u bod yn darparu fframwaith defnyddiol ar gyfer asesu datblygiadau niwclear dan yr EN-7 arfaethedig. Mae rhagor o ganllawiau ar berygl llifogydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau ymarfer cynllunio a amlinellwyd gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC), yr anogir datblygwyr i'w darllen.
- 4.3.4 Mae'r llywodraeth wedi ystyried a ddylai perygl llifogydd fod yn faen prawf gwaharddol, gan wrthod yr ardaloedd risg uchaf oherwydd newid hinsawdd, ond rydym wedi dod i'r casgliad nad yw hyn yn angenrheidiol gan fod yr asesiadau perygl llifogydd yn gynhwysfawr ac yn cynnwys modelu newid hinsawdd.
- 4.3.5 Fel rhan o'r asesiad safle strategol a gynhaliwyd gan y llywodraeth ar gyfer EN-6, cynhaliwyd Prawf Dilyniannol a Phrawf Eithrio, sy'n ffurfio rhan o'r asesiad perygl llifogydd, ar gyfer yr wyth safle a restrwyd fel rhai a allai fod yn addas. Fodd bynnag, dan y dull newydd sy'n seiliedig ar feini prawf, bydd angen i'r profion hyn yn awr gael eu hystyried gan ddatblygwyr. Gan fod yr asesiadau perygl llifogydd yn rhan hollbwysig o'r broses o roi caniatâd a thrwyddedu, bydd ymgysylltu cynnar â'r asesiadau hyn yn lleihau perygl i ddatblygwyr ac yn lleihau baich i'r rheoleiddwyr.
- 4.3.6 Rydym felly'n cynnig mai'r amser mwyaf priodol i gynnal y profion hyn fyddai yn y cam cyn ymgeisio pan fydd yr Arolygiaeth Gynllunio ac asiantaethau rheoleiddio yn cynnal trafodaethau cam cynnar ar brosiectau cyn iddynt fynd i ystyriaethau manylach Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Mae'r dull gweithredu hwn yn unol â thechnolegau eraill, a byddem yn annog datblygwyr i gyfeirio at EN-1 a chanllawiau ymarfer cynllunio'r DLUHC ynglŷn â sut y dylid cynnal asesiad perygl llifogydd a'r profion perthnasol. Byddwn yn ystyried yr achos anghenion niwclear a'r dull gweithredu ar gyfer ystyried unrhyw safleoedd sydd ar gael yn rhesymol ar gyfer yr asesiad perygl llifogydd fel rhan o'r EN-7 drafft. Fel y trafodir yn yr ymgynghoriad hwn, bydd EN-7 hefyd yn cymryd bod ynni niwclear yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth genedlaethol hollbwysig yn y fersiwn diwygiedig o EN-1. Ystyrir hyn hefyd wrth bennu'r gofynion sy'n nodi y dylai datblygwyr ystyried dulliau amgen fel rhan o'u hasesiad perygl llifogydd.
- 4.3.7 Roedd yr wyth safle a nodwyd yn EN-6 wedi'u lleoli ar safleoedd arfordirol gan fod y rhain yn galluogi mynediad haws at swm sylweddol o ddŵr i oeri adweithyddion graddfa Gigawatt. O ganlyniad, roedd perygl llifogydd yn canolbwyntio ar berygl llifogydd arfordirol. Fodd bynnag, mae EN-7 yn ceisio cynnwys technolegau niwclear newydd, a allai fod ag anghenion oeri gwahanol a gofynion gwahanol o ran dŵr, a gallai hyn alluogi lleoliadau newydd nad ydynt ar yr arfordir. O ganlyniad, cynigir y dylai ystyriaethau perygl llifogydd gynnwys pob ffynhonnell perygl llifogydd bosibl fel sy'n berthnasol i'r safle.

4.3.8 Mae llifogydd wedi'i grwpio gyda tswnami ac ymchwydd storm er mwyn ffurfio maen prawf dewisol cyfunol. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r asesiad o tswnami ac ymchwydd storm, nac i faen prawf dewisol ar wahân Prosesau Arfordirol, gan fod pob un o'r rhain yn gofyn i ddatblygwyr ystyried y gwaith modelu newid hinsawdd a pherygl llifogydd diweddaraf. Mae'r ystyriaeth o risg tswnami ac ymchwydd storm a phrosesau arfordirol (gan gynnwys erydu) yn dal yn berthnasol i safleoedd sydd mewn lleoliadau arfordirol a ger aberoedd. Er hyn, rydym yn cydnabod y gallai'r elfennau hyn fod yn llai cymwys i brosiectau a gynigir ar safleoedd nad ydynt ar yr arfordir.

### **Nodweddion lleoliadol a dwysedd poblogaeth**

4.3.9 Mae EN-6 yn pwysleisio pa mor bwysig yw diogelu iechyd a lles pobl yng nghydestun prosiectau niwclear. Rhaid i unrhyw effeithiau posibl ar y ffactorau hyn sy'n gysylltiedig â chyfleusterau niwclear gael eu hasesu'n drylwyr a'u rheoli gan ddatblygwyr. Mae'r polisi'n pwysleisio'r angen am werthusiadau iechyd cynhwysfawr a strategaethau lliniaru er mwyn sicrhau diogelwch ac amddiffyn unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn agos at osodiadau niwclear.

4.3.10 Cynigir y dylai'r maen prawf asesu safle yn EN-7 ddal i gynnwys ystyriaeth yn erbyn y maen prawf demograffig 'lled drefol'. Dylai hwn fod yn faen prawf gwaharddol i helpu i ddiystyru lleoliadau anaddas yn gynnar (ni ddylai unrhyw sector 30° o amgylch y safle fod â dwysedd poblogaeth sy'n fwy na 5000 o bobl ym mhob cilometr sgwâr). Dylid nodi nad yw'r ystyriaeth gychwynnol hon yn gwarantu y bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) yn ystyried bod nodweddion demograffig safle yn dderbyniol yn dilyn ei asesiad rheoleiddiol wrth ystyried cais am drwydded safle niwclear.

4.3.11 Pwrpas asesu'r boblogaeth o amgylch safleoedd arfaethedig yw lleihau'r risg i'r cyhoedd pe bai damwain yn digwydd, er nad yw hynny'n debygol, a bod deunyddiau ymbelydrol yn cael eu lledaenu y tu hwnt i ffiniau'r safle.

4.3.12 Mae'r asesiad hwn yn ychwanegol at y mesurau rheoli rheoleiddiol cadarn gan ONR ym mhob cam o gylch bywyd safle niwclear. Ni chaiff gorsaf ynni niwclear weithredu os nad oes cynlluniau argyfwng priodol yn eu lle.

4.3.13 Cydnabyddir y gallai lleoli technolegau niwclear datblygedig yn nes at boblogaethau dwysach fod yn fuddiol yn yr hirdymor, er enghraifft er mwyn darparu gwres tymheredd uchel i weithfeydd diwydiannol. Nodir hefyd bod rhai adweithyddion niwclear datblygedig yn debygol o gynnwys llai o ddeunydd niwclear na'r adweithyddion graddfa Gigawatt presennol, ac mae'n bosibl bod ffyrdd newydd o sicrhau na fydd y deunydd hwnnw'n cael ei ryddhau yn ddamweiniol. Fodd bynnag, mae technolegau o'r fath yn cael eu profi ar hyn o bryd drwy brosiectau arddangos. O ganlyniad, credir y byddai'n ddoeth cadw'r maen prawf demograffig lled drefol fel y mae ar hyn o bryd. Bydd y maen prawf presennol yn dal i olygu bod modd rhoi gorsafoedd ynni niwclear ar waith mewn nifer o wahanol safleoedd a lleoliadau posibl. Cyn gynted ag y bydd profiad gweithredol a rhagor o dystiolaeth sylfaenol ynglŷn â'r technolegau niwclear datblygedig hyn, mae'n bosibl y bydd dadl dros addasu'r maen prawf.

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'r meini prawf sy'n cael eu heffeithio gan ein prif newidiadau polisi arfaethedig yn gywir?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 7a-7d. Os dymunwch, rhowch unrhyw sylwadau er mwyn egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

7a - Llifogydd, tswnami ac ymchwydd storm a phrosesau arfordirol

7b - Y sefyllfa ddiodyn o ran ystyried perygl llifogydd yw y dylai datblygwyr yn gyntaf ystyried safleoedd neu atebion eraill ar lefel genedlaethol, oni bai fod rheswm polisi pam y dylid cyfyngu'r cwmpas er mwyn canolbwyntio yn hytrach ar lefel ranbarthol neu leol. Lle nodir perygl llifogydd neu risg o erydiad arfordirol, ac nad yw safle amgen yn hyfyw, ystyrir opsiynau a mesurau lliniaru yn fanylach drwy'r asesiad perygl llifogydd. Bwriadwn ystyried a oes cyfiawnhad polisi dros gyfyngu'r ffocws i lefel fwy rhanbarthol neu leol fel rhan o'r NPS, ond byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau neu dystiolaeth a fyddai'n cefnogi ein hystyriaeth ac yn ein helpu i ddiffinio eu cwmpas.

7c - Nodweddion lleoliadol a dwysedd poblogaeth

7d - Meini prawf eraill yr effeithir arnynt ond nad ydynt wedi'u nodi uchod

**Materion a gafodd eu hystyried ar gyfer eu cynnwys fel Meini Prawf Asesu Safle newydd, ond y penderfynwyd peidio â'u cynnwys**

### **Gwrthsefyll newid hinsawdd ac addasu**

4.3.14 Mae EN-6 yn pwysleisio dro ar ôl tro pa mor bwysig yw ynni niwclear fel ffynhonnell ynni carbon isel er mwyn mynd i'r afael â newid hinsawdd a chyfrannu tuag at dargedau lleihau carbon y DU. Nid oes gan EN-6 faen prawf newid hinsawdd penodol. Yn hytrach, mae ystyriaethau newid hinsawdd wedi eu cynnwys mewn meini prawf lleoli eraill, sy'n sicrhau bod datblygwyr yn ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd, megis mwy o berygl llifogydd neu'r angen am systemau oeri eraill, yn ogystal â mesurau lliniaru ac addasiadau posibl i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn. Ymdrinnir â materion newid hinsawdd eraill y dylai datblygwyr eu hystyried hefyd ym meini prawf EN-1.

4.3.15 Rydym yn dal i gydnabod bod lliniaru effeithiau newid hinsawdd yn hanfodol er mwyn lleihau effeithiau mwyaf peryglus newid hinsawdd, ac rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddal i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol yn ymgorffori mesurau addasu sy'n ystyried effeithiau newid hinsawdd dan feini prawf asesu safle EN-7.

4.3.16 Gan gymryd felly bod newid hinsawdd yn cael ei ystyried o fewn y meini prawf asesu safle presennol, yn ogystal ag yn EN-1, ein hasesiad yw y byddai maen prawf penodol



ar gyfer newid hinsawdd yn dyblygu prosesau cadarn sy'n bodoli'n barod ar gyfer asesu effaith yr hinsawdd ar safle. O ganlyniad, nid ydym yn meddwl bod angen cyflwyno maen prawf ar wahân ar gyfer newid hinsawdd.

4.3.17 Er ein bod yn cynnig y bydd y broses ar gyfer adolygu effaith newid hinsawdd a mesurau lliniaru yn aros yr un fath ag a nodwyd yn EN-6, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i risgiau a rhagolygon wedi'u diweddarau. Yn yr un modd, disgwylir y bydd Aseiad Dyluniad Generig a'r rheoleiddwyr niwclear perthnasol yn dal i asesu'r dystiolaeth mewn cysylltiad ag effeithiau newid hinsawdd ac yn rhoi eu barn ynglŷn â'r mesurau addasu a gynigir. Er mwyn cefnogi penderfyniadau cynllunio, mae'r llywodraeth yn cynhyrchu set o Ragolygon Hinsawdd y DU<sup>25</sup> ac mae wedi datblygu Rhaglen Addasu Genedlaethol<sup>26</sup> statudol. Bydd Pŵer Adrodd ar Addasiadau<sup>27</sup> y llywodraeth yn sicrhau bod awdurdodau adrodd (rhestr ddiffiniedig o gyrff cyhoeddus ac ymgymerwyr statudol, gan gynnwys cyfleustodau ynni) yn asesu'r risgiau a achosir i'w sefydliadau gan newid hinsawdd.

## Diogelu dŵr daear

4.3.18 Nid oedd diogelu dŵr daear wedi'i gynnwys fel maen prawf strategol penodol pan ddynodwyd EN-6 yn wreiddiol yn 2011. Roedd hyn oherwydd nad oedd yr un o'r wyth safle a restrir yn EN-6 wedi'u lleoli dros ardal ddiogelu tarddiad dŵr, ac mae EN-1 yn darparu canllawiau cyffredinol ar ymdrin ag ansawdd dŵr, gan gynnwys diogelu dŵr daear. Er hyn, roedd ymgynghoriad 2017 ar EN-6 yn trafod ychwanegu maen prawf newydd ar gyfer Ardaloedd Diogelu Dŵr Daear. Roedd hyn yn nodi y disgwylir y dylai unrhyw ddatblygwyr sy'n cynnig prosiect a fyddai'n effeithio ar ardal diogelu tarddiad dŵr ddangos yn eu cais am DCO sut y gellid osgoi neu liniaru effeithiau.

4.3.19 Mae'r llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd diogelu ardaloedd lle mae dŵr daear yn tarddu, a byddai'n dal yn well gennym pe na bai datblygwyr yn datblygu prosiectau seilwaith mawr ar ardaloedd dŵr daear lle bo modd. Fodd bynnag, nid yw hwn yn fater penodol i ynni niwclear. Gallai pob prosiect seilwaith mawr achosi niwed i ardaloedd diogelu tarddiad dŵr daear. Dyma pam y mae diogelu ardaloedd lle mae dŵr daear yn tarddu yn rhan greiddiol o rannau eraill o'r prosesau rhoi caniatâd a thrwyddedu. Yn ogystal â'r canllawiau a roddir yn EN-1, mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn darparu canllawiau<sup>28</sup> cynhwysfawr ar ofynion, caniatadau, aseuadau risg a mesurau rheoli er mwyn diogelu ardaloedd lle mae dŵr daear yn tarddu, y mae'n rhaid i ddatblygwyr gyfeirio atynt yn ystod y broses o roi caniatâd. O ganlyniad, nid ydym yn meddwl bod angen gwneud ardaloedd diogelu dŵr daear yn faen prawf penodol yn EN-7, gan y byddai'r maen prawf hwn yn dyblygu mesurau diogelu sy'n bodoli'n barod ac yn creu gwaith ychwanegol diangen i ddatblygwyr a rheoleiddwyr.

4.3.20 Er nad ydym yn cynnig gwneud diogelu dŵr daear yn faen prawf at ddibenion cynllunio, dylai datblygwyr nodi ei bod yn debygol y bydd prosiectau arfaethedig a allai

---

<sup>25</sup> Y Swyddfa Dywydd. UK Climate Projections (UKCP). Ar gael yn:

<https://www.metoffice.gov.uk/research/approach/collaboration/ukcp>

<sup>26</sup> Llywodraeth y DU (2023). Government sets out adaptation programme to tackle climate impact. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/news/government-sets-out-adaptation-programme-to-tackle-climate-impact>

<sup>27</sup> Llywodraeth y DU (2010). Adaptation Reporting Power, Frequently Asked Questions and Answers. Ar gael yn:

<https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a7a1d81ed915d6eaf153dd2/report-faq-110126.pdf>

<sup>28</sup> Llywodraeth y DU (2017-2023). Groundwater protection. Ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/collections/groundwater-protection>

effeithio ar ardal diogelu tarddiad dŵr yn wynebu heriau mwy yn ystod y broses o roi caniatâd. Anogir osgoi ardaloedd diogelu dŵr daear, yn ogystal ag ymgynghori'n gynnar â chanllawiau sydd ar gael ar ddiogelu dŵr daear ac ymgysylltu ag asiantaethau'r amgylchedd yn EN-7.

Nid ydym yn cynnig y dylai EN-7 gynnwys meini prawf penodol neu ar wahân ar newid hinsawdd ac addasu, ac ar ddiogelu dŵr daear, gan fod y rhain wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o EN-7, ac EN-1 ac mewn canllawiau ehangach. Byddem yn croesawu adborth ynglŷn â datblygu'r dull gweithredu hwn yn EN-7.

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi yn gywir bod y meini prawf hyn wedi'u cynnwys yn EN-7, EN-1 ac mewn canllawiau ehangach?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 8a-8c. Os dymunwch, rhowch sylwadau er mwyn egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

8a - Gwrthsefyll ac addasu i newid hinsawdd

8b - Diogelu dŵr daear

8c - Meini prawf eraill y dylid ystyried peidio â'u cynnwys, nad ydynt wedi'u nodi uchod

## Meini Prawf Asesu Safle heb ddatblygiad arwyddocaol

### Agosrwydd at weithgareddau milwrol

4.3.21 Yn EN-6, roedd safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn y posibilrwydd o weithgaredd milwrol a oedd yn achosi perygl allanol i ddiogelwch gorsafoedd ynni niwclear, gan ystyried parthau hedfan isel ac ardaloedd hyfforddi, neu os byddai'r safle niwclear yn cael effaith andwyol ar allu'r fyddin i gyflawni tasgau hanfodol, megis hyfforddi a gweithrediadau eraill. Roedd y maen prawf yn waharddol ac yn ddewisol gan ddibynnu ar natur y safle milwrol a gweithgareddau ac opsiynau ar gyfer lleihau effeithiau. Ein hasesiad yw y bydd y maen prawf hwn yn parhau'n gymwys i orsafoedd ynni niwclear o bob math, ac nid ydym yn bwriadu diwygio'r maen prawf hwn yn EN-7.



## **Agosrwydd at safleoedd peryglon mawr a phiblinellau peryglon damweiniau mawr**

4.3.22 Dan y broses arfaethedig, bydd y datblygwr yn asesu lleoliad y datblygiad mewn perthynas â safle damweiniau mawr, gan gynnwys piblinellau peryglon mawr, a bydd yn derbyn cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac asiantaethau'r amgylchedd ynglŷn â'r potensial i leihau unrhyw effeithiau sy'n codi. Rhoddir sylw da i'r heriau posibl hyn yn y broses reoleiddio niwclear bresennol, ac nid ydynt yn cynrychioli bwlch neu broblem yn y broses leoli. O ganlyniad nid ydym yn bwriadu diwygio'r maen prawf hwn yn EN-7.

## **Agosrwydd at Symudiadau Awyrennau Sifil**

4.3.23 Roedd EN-6 yn asesu'r safleoedd ac yn ystyried a ellid diogelu unrhyw ddatblygiad gorsaf ynni niwclear tebygol o fewn ffiniau'r safle a enwyd rhag risgiau yn gysylltiedig â symudiadau awyrennau sifil ac a ellid lleihau'r effeithiau ar reoli traffig awyr. Ni fydd yr asesiadau hyn yn cael eu gwneud gan y llywodraeth mwyach, ond bydd angen i unrhyw ddatblygwr posibl eu gwneud o hyd, yn ogystal â'r holl ystyriaethau perthnasol a amlinellir yn Adran 5.4 o EN-1 fel rhan o broses y cais am gydsyniad datblygu. Mae hwn yn faen prawf dewisol a chan nad oes newidiadau arwyddocaol i'r broses hon na'r ystyriaethau, nid ydym yn bwriadu diwygio'r maen prawf hwn yn EN-7.

## **Safleoedd o bwysigrwydd ecolegol â dynodiad cenedlaethol a rhyngwladol**

4.3.24 Mae dau faen prawf yn ymwneud â safleoedd o bwysigrwydd ecolegol sydd wedi'u dynodi ac sy'n cael eu diogelu ar lefel genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'r safleoedd hyn, yn ogystal ag unrhyw effeithiau arnynt neu fesurau lliniaru, yn dal yn berthnasol ar gyfer ystyriaeth gan ddatblygwyr. O ganlyniad nid ydym yn bwriadu diwygio y naill na'r llall o'r meini prawf hyn yn EN-7.

## **Ardaloedd gwerthfawr o ran amwynder a thirwedd a threftadaeth ddiwylliannol**

4.3.25 Rydym wedi ystyried a ddylid rhannu'r maen prawf ar gyfer Ardaloedd sy'n werthfawr o ran amwynder a thirwedd yn ddau faen prawf ar wahân yn ymdrin â'r gwahanol lefelau o ddiogelu tirwedd, sef tirweddau â dynodiad cenedlaethol (Parciau Cenedlaethol, y Broads, ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) ac ardaloedd eraill sy'n werthfawr iawn o ran tirwedd ac amwynder, megis tirweddau sy'n werthfawr yn lleol. Credwn fod y maen prawf presennol yn diogelu'r ddau gategori hyn ac nad oes angen ei ddiwygio.

4.3.26 Yn yr un modd, mae'r maen prawf treftadaeth ddiwylliannol yn cynnwys diogeliad ar gyfer ardaloedd o bwysigrwydd diwylliannol, ac mae'n parhau'n berthnasol ac yn bwysig i ddatblygwyr ei ystyried wrth gynnig prosiect. O ganlyniad bwriadwn gadw'r maen prawf hwn yn ei ffurf bresennol hefyd.

4.3.27 Byddem yn annog datblygwyr i ymgysylltu'n gynnar ag asiantaethau amgylcheddol, hanesyddol a diwylliannol perthnasol pe gallai eu datblygiad effeithio ar dirwedd wedi'i ddiogelu neu ar ardal treftadaeth ddiwylliannol.

## Maint safle ar gyfer gweithredu

- 4.3.28 Bydd dewis safle sydd â digon o arwynebedd tir ar gyfer gwaith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu yn faen prawf pwysig o hyd. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen rhagor o dir a chynyddu defnyddioldeb safleoedd, anogir datblygwyr i sicrhau eu bod yn ystyried pob cynllun safle tebygol ac amrywiadau rhesymol i'r cynlluniau hynny wrth nodi safleoedd posibl. Dylai'r ystyriaethau hyn gynnwys tir gofynnol sy'n ychwanegol at ffin y safle arfaethedig, er enghraifft ar gyfer adeiladu meysydd parcio, ffyrdd mynediad a chyfleusterau glanio morol, yn ogystal ag ar gyfer adeiladu a datgomisiynu'r orsaf ynni niwclear.
- 4.3.29 Mae'r llywodraeth yn disgwyl i brif elfennau gweithredol yr orsaf ynni, yn enwedig y seilwaith sydd â'r potensial i achosi perygl radiolegol yn uniongyrchol, er enghraifft adeilad yr adweithydd, (gan gynnwys yr ystafell dyrbin gysylltiedig), tanwydd a ddisbyddwyd a storfeydd gwastraff lefel ganolraddol, gael eu lleoli o fewn ffiniau'r safle arfaethedig. Er hyn, mae'r llywodraeth yn cydnabod bod angen hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer ystyriaethau lleol manwl.
- 4.3.30 Byddai angen i unrhyw datgomisiynu a ariennir fod wedi'i leoli ar y safle a nodwyd, felly mae'n bwysig ystyried materion datgomisiynu fel rhan o'r broses o ddewis safle.

## Mynediad at ffynonellau oeri addas

- 4.3.31 Mae angen ffynonellau dibynadwy o ddŵr oeri ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear graddfa Gigawatt er mwyn cludo gwres o graidd yr adweithydd mewn amgylchiadau arferol a diffygiol. Gallai'r ffaith nad oes cymaint o alw am gyfleusterau oeri ar gyfer unedau SMR ac AMR unigol olygu bod modd lleoli rhai SMRs ac AMRs ar safleoedd nad ydynt ar yr arfordir, gan dynnu dŵr o ffynonellau dŵr mewndirol fel afonydd a llynnoedd, a'i ollwng yn ôl iddynt, er y bydd lleoli mwy nag un uned mewn un lleoliad yn cynyddu'r gofynion oeri. Dylai datblygwyr hefyd nodi bod angen caniatâd gan asiantaeth yr amgylchedd a'r awdurdod lleol perthnasol er mwyn defnyddio dŵr mewndirol, gan ystyried goblygiadau defnyddio'r adnoddau a'r effaith ar ddefnyddwyr eraill. Gallai gwaith craffu rheoleiddiol yn ymwneud ag elfion hylifol a ryddheir i afonydd a gofynion o ran gwres hefyd fod yn fwy caeth nag ar gyfer dŵr arfordirol.
- 4.3.32 Mae technolegau oeri amgen ar gael, er enghraifft tyrau oeri. Mae'r rhain yn lleihau'r galw am adnoddau dŵr, ac mae'n bosibl y gallent osgoi'r angen i gael mynediad at afonydd mawr, llynnoedd neu ddŵr môr. Fodd bynnag, gall defnyddio rhai mathau o dyrau oeri gael effeithiau gweledol negyddol a fyddai'n cael eu hystyried yn y broses gynllunio. Gallai oeri ag aer hefyd fod yn gredadwy ar gyfer rhai technolegau AMR.
- 4.3.33 Mae'r meini prawf asesu presennol ar gyfer lleoli (sydd yn EN-6) yn rhan annatod o'r broses o ddewis safleoedd addas i orsafoedd ynni niwclear yn y DU. Maent yn ceisio sicrhau bod safleoedd posibl/safleoedd a ddewiswyd yn bodloni'r safonau uchel o ran diogelwch a'r amgylchedd, yn ystyried pryderon y cyhoedd, ac yn cyfrannu tuag at amcanion y DU o ran ynni a'r amgylchedd. Mae'r cynigion sydd yn yr ymgynghoriad hwn yn ceisio helpu i roi mwy o orsafoedd ynni niwclear ar waith, yn unol â'r uchod.

**Cwestiwn 9:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir nad oes angen datblygiad arwyddocaol ar gyfer y meini prawf hyn?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 9a-9h, Os dymunwch, rhowch unrhyw sylwadau er mwyn egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

9a - Agosrwydd at weithgareddau milwrol

9b - Agosrwydd at safleoedd peryglon mawr a phiblinellau peryglon damweiniau mawr

9c - Agosrwydd at Symudiadau Awyrennau Sifil

9d - Safleoedd o bwysigrwydd ecolegol â dynodiad cenedlaethol a rhyngwladol

9e - Ardaloedd sy'n werthfawr o ran amwynder a thirwedd a threftadaeth ddiwylliannol

9f - Maint safle ar gyfer gweithredu

9g - Mynediad at ffynonellau oeri addas

9h - Meini prawf eraill nad oes ganddynt ddatblygiad arwyddocaol ond nad ydynt wedi eu nodi uchod

## 4.4 Materion eraill sy'n cael eu hystyried yn EN-6

4.4.1 Yn ogystal â'r meini prawf asesu safle, mae nifer o ffactorau eraill a drafodir yn EN-6 yr ydym wedi eu hystyried fel rhan o'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer EN-7. Ystyriwch y rhain yn fanylach yn yr is-adran hon.

### **Rhinweddau safle wedi'i enwebu o'i gymharu ag atebion amgen eraill**

4.4.2 Mae polisi'r DU yn pwysleisio y dylai ceiswyr ystyried rhinweddau strategol safle a enwebwyd yn drylwyr ochr yn ochr ag atebion amgen eraill, a allai gynnwys safleoedd amgen. Roedd yr asesiad lleoli strategol ar gyfer yr NPS presennol yn ystyried hyn ar gyfer yr wyth safle a restrwyd drwy gymharu'r safleoedd hyn â thri safle arall posibl.

4.4.3 Gan nad yw'r llywodraeth yn bwriadu ymgymryd â phroses enwebu safleoedd ac asesiad safleoedd strategol cenedlaethol mwyach, yn y dyfodol bydd angen i ddatblygwyr weithio gyda'r Arolygiaeth Gynllunio i ystyried atebion a/neu safleoedd amgen ar lefel prosiectau, fel sy'n digwydd ar gyfer prosiectau seilwaith eraill.

4.4.4 Bydd yn ofynnol i'r llywodraeth ystyried dewisiadau amgen rhesymol yn lle'r polisi a nodir yn EN-7 yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) a'r Asesiad Rheoliadau

Cynefinoedd (HRA). Yn unol â'r dull gweithredu seiliedig ar feini prawf a gynigir ar gyfer datblygiad niwclear newydd, ystyrir y dewisiadau amgen rhesymol hyn ar gyfer yr AoS a'r HRA ar lefel strategol, yn hytrach na thrwy gymharu safleoedd dynodedig â safleoedd amgen. Amlinellir y dewisiadau amgen rhesymol a gynigir ar gyfer yr AoS a'r HRA yn yr EN-7 drafft, a gyhoeddir ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus maes o law, ynghyd â'r achos anghenion ar gyfer seilwaith ynni niwclear newydd.

- 4.4.5 Gan gydnabod rôl hollbwysig seilwaith cynhyrchu ynni carbon isel ar gyfer ein huchelgeisiau diogelwch ynni a sero net, mae'r EN-1 diwygiedig hefyd yn dod i'r casgliad bod seilwaith carbon isel sydd ag arwyddocâd cenedlaethol newydd yn flaenoriaeth genedlaethol hollbwysig. Yn ymarferol, golyga hyn rhagdybiaeth uwch o blaid rhoi cydsyniad i Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol carbon isel yn y broses gwneud penderfyniadau, ac nid yw effeithiau gweddilliol penodol heb fod yn gysylltiedig â'r HRA na ellir mynd i'r afael â hwy drwy'r hierarchaeth lliniaru yn debygol o arwain at wrthod cais. Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â sut y caiff hyn ei gymhwyso i NSIPs ynni carbon isel i'w gweld yn y fersiwn diwygiedig o EN-1. Fel ffynhonnell ynni carbon isel, disgwylir y bydd niwclear yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth genedlaethol hollbwysig. Caiff hyn ei ystyried yn y fersiwn drafft o EN-7, gan gynnwys ein hystyriaeth o ddewisiadau amgen.
- 4.4.6 Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol ar berygl llifogydd, trafodir yr ystyriaeth o ddewisiadau amgen yn yr asesiad o berygl llifogydd ymhellach hefyd yn EN-7. Bydd angen i ddatblygwyr wneud asesiadau perygl llifogydd o hyd, gan gynnwys y prawf dilyniannol a'r prawf eithrio, hyd yn oed os yw prosiect yn un â blaenoriaeth genedlaethol hollbwysig.

## **Rheoli gwastraff ymbelydrol**

- 4.4.7 Mae gwastraff niwclear a gynhyrchir gan orsafoedd ynni niwclear newydd yn dal yn ystyriaeth bwysig yn y polisi lleoli ar gyfer datblygiadau niwclear newydd. Mae'n pwysleisio ymrwymiad y llywodraeth i ddull diogel a chynaliadwy o reoli gwastraff ymbelydrol. Cynigir y dylai EN-7 alluogi'r defnydd o AMR ac SMR. Gallai'r technolegau newydd hyn arwain at ffrydiau gwastraff newydd neu wahanol, ond y gofyniad sylfaenol o hyd yw ei bod yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos eu bod wedi ystyried a rhoi sylw i reoli gwastraff niwclear a thanwydd a ddisbyddwyd yn yr hirdymor, gan gynnwys dulliau cyflyru, pecynnu, storio, cludo a gwaredu.
- 4.4.8 Mae EN-6 yn cydnabod polisi'r llywodraeth y dylid gwaredu gwastraff uwch ei actifedd a thanwydd a ddisbyddwyd (na ellir rhagweld defnydd pellach ohono) mewn Cyfleuster Gwaredu Daeregol (GDF). Mae'n nodi y dylai gorsafoedd ynni niwclear newydd wneud darpariaeth ar gyfer gwaredu eu gwastraff ymbelydrol a thanwydd a ddisbyddwyd yn y pen draw mewn GDF. Mae'n ofynnol i ddatblygwyr ymgysylltu â rhaglen GDF y llywodraeth a sicrhau bod eu cynlluniau rheoli gwastraff yn gyson â sicrwydd y bydd GDF ar gael yn y dyfodol. Bwriadwn fabwysiadu'r un dull o reoli gwastraff niwclear yn EN-7 ag yn EN-6.
- 4.4.9 Dyma'r prif ddatblygiadau ym maes rheoli gwastraff niwclear ers dynodi EN-6:
- Lansiyd proses newydd i nodi lleoliad addas ar gyfer GDF yn Lloegr yn 2018 ac yng Nghymru yn 2019. Mae'r ddwy broses yn seiliedig ar gydsyniad ac mae angen i'r

datblygwr, a Gwasanaethau Gwastraff Niwclear, weithio mewn partneriaeth â chymunedau sy'n rhan o'r broses.

- Mae pedair cymuned wedi ymuno â'r broses ac mae ychydig o ymchwiliadau daearegol cynnar wedi'u gwneud. O ganlyniad i hynny, penderfynwyd nad oedd un o'r cymunedau yn addas ar gyfer symud ymlaen ymhellach yn y broses.
- Mae tair cymuned ar ôl yn y broses.
- Mae Llywodraeth y DU wedi deddfu yn Neddf Ynni 2023 ar gyfer fframwaith rheoleiddio mwy cymesur yng nghamau olaf datgomisiynu pan fydd y peryglon a'r risgiau yn isel.
- Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ymgynghoriad ym mis Mawrth 2023 i ddiweddarau polisiâu ar reoli sylweddau ymbelydrol a datgomisiynu niwclear. Mae hyn yn cynnwys cynigion i ganiatáu gwaredu gwastraff lefel ganolraddol mewn cyfleusterau gwaredu sy'n agos at yr wyneb. Mae Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn disgwyl cyhoeddi'r polisi terfynol yn gynnar yn 2024.

### **Effeithiau mwy nag un adweithydd**

4.4.10 Mae EN-6 yn cydnabod y gellid rhoi mwy nag un adweithydd ar waith ar safle, ac mae gan y rhan fwyaf o'r gorsafoedd graddfa Gigawatt presennol ddau adweithydd. Er hyn, mae'n bosibl y bydd adweithyddion niwclear unigol mwy newydd yn cynhyrchu llai o drydan ac y bydd eu hól troed safle yn llai. Byddai hynny'n golygu y gellid gosod mwy o adweithyddion bach ar safle unigol, cael gwahanol fathau o dechnolegau niwclear ar un safle, neu ddefnyddio mwy nag un adweithydd ar yr un safle ar wahanol adegau.

4.4.11 Mae EN-6 yn pwysleisio y dylai datblygwyr sy'n bwriadu rhoi mwy nag un adweithydd ar waith ar safle unigol asesu a lliniaru effeithiau cronol datblygiadau o'r fath. Mae'r polisi yn pwysleisio'r angen am werthusiadau cynhwysfawr sy'n ystyried effeithiau cyfunol mwy nag un adweithydd ar ffactorau amrywiol megis yr amgylchedd, seilwaith a chymunedau lleol. Nid yw dyfodiad technolegau newydd wedi newid yr amcan polisi sylfaenol, sef sicrhau bod effeithiau'r datblygiadau hyn yn cael eu rheoli'n ofalus a'u lleihau drwy strategaethau cynllunio a lliniaru effeithiol. O ganlyniad, cynigir ar gyfer EN-7, fel EN-6, pe bai cais yn cael ei gyflwyno ar gyfer mwy nag un adweithydd ar safle, y byddai angen i'r Arolygiaeth Gynllunio, cyrff rheoleiddio eraill, ac yn y pen draw yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, ystyried effeithiau posibl pob un o'r adweithyddion arfaethedig. O ganlyniad, caiff datblygwyr sy'n bwriadu rhoi mwy nag un adweithydd ar waith eu hannog yn gryf yn gynnar yn y broses i ystyried uchafswm yr adweithyddion y gellid eu rhoi ar waith ar safle penodol er mwyn lleihau'r risg o newidiadau perthnasol i'w Gorchmynion Cydsyniad Datblygu yn y dyfodol.

### **Perchnogaeth safleoedd**

4.4.12 Nid yw'n ofynnol i ddarpar ymgeiswyr am DCO fod yn berchen ar y tir y maent wedi ei ddewis ar gyfer datblygu gorsafoedd ynni niwclear newydd gan fod perchnogaeth tir yn fater masnachol a allai newid. Fodd bynnag, disgwylir i ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth gyfredol i'r Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â pherchnogaeth y safle a'r defnydd a wneir o'r tir, a lle bo'n berthnasol, fanylion ymgynghori â pherchnogion y tir.

Os defnyddir y tir at ddiben arall ar adeg y cais, dylai'r Arolygiaeth Gynllunio ystyried y defnydd hwnnw ar y cyd â'r adran berthnasol ar ddefnydd tir yn EN-1.

### **Manteision Net i Fioamrywiaeth**

4.4.13 Ers dynodi EN-6, cyhoeddwyd deddfwriaeth a chanllawiau newydd ar fanteision net i fioamrywiaeth wrth gynllunio seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol sy'n berthnasol i ddatblygwyr eu hystyried ar gyfer prosiectau sy'n dod drwy EN-7.

4.4.14 Nod y polisi manteision net i fioamrywiaeth yw sicrhau bod prosiectau datblygu yn helpu i wella bioamrywiaeth. Mae'n golygu bod angen i ddatblygiad wella gwerth ecolegol safle, yn hytrach na dim ond osgoi neu leihau niwed i fioamrywiaeth.

4.4.15 Mae'r prif faterion y gallai fod angen i awdurdod cynllunio lleol a rheolwr neu ddatblygwr tir gorsaf ynni niwclear eu hystyried yn cynnwys asesu bioamrywiaeth, manteision net i fioamrywiaeth, mesurau i wrthbwysu a digolledu bioamrywiaeth, cydweithio ag awdurdodau amgylcheddol, monitro hirdymor a mesurau i wella bioamrywiaeth, Asesiad o Effaith Amgylcheddol, ac ymgysylltu â'r gymuned. Gallai'r gofynion penodol amrywio gan ddibynnu ar leoliad a maint gorsaf ynni niwclear.

4.4.16 Dylai ceiswyr ystyried canllawiau Adran 4.5 EN-1 yn gynnar wrth ddatblygu prosiectau.

**Cwestiwn 10:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a gynigiwyd gennym mewn cysylltiad â'r materion eraill a ystyriwyd yn EN-6 ac y bydd angen eu hystyried yn EN-7? Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno â'r safbwynt a nodwyd yn yr Ymgynghoriad.

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 10a-10f. Os dymunwch, rhowch sylwadau i egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

10a: Rhinweddau safle a enwebwyd o gymharu ag atebion amgen eraill: A oes gennych awgrymiadau neu dystiolaeth ynglŷn â beth y dylid ei gynnwys, neu na ddylid ei gynnwys, fel rhan o ystyriaeth y llywodraeth o ddewisiadau amgen rhesymol ar y lefel strategol?

10b: Rheoli gwastraff ymbelydrol

10c: Effeithiau mwy nag un adweithydd

10d: Perchnogaeth safleoedd?

10e: Manteision Net i Fioamrywiaeth

10f: Materion eraill i'w hystyried fel rhan o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf



## 5 Gweithredu'r prif gynigion polisi

### 5.1 Y prif ystyriaethau

- 5.1.1 Mae'n bwysig deall mai dim ond ar gam cyn ymgeisio y broses gynllunio y bydd y dull polisi arfaethedig yn effeithio, ac na fydd yn gwneud unrhyw newidiadau i'r drefn gynllunio nac yn effeithio ar y mesurau presennol ar gyfer diogelwch, diogeledd, a diogelu'r amgylchedd a gynigir gan y trefniadau rheoleiddio.
- 5.1.2 Y prif wahaniaeth rhwng y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) niwclear presennol, EN-6, a'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf dan EN-7 yw'r ffaith mai'r datblygwr fydd yn gwneud yr asesiad safle yn hytrach na'r llywodraeth. Dan EN-7 bydd y datblygwr yn gyfrifol am bennu nodweddion y safle ac am sicrhau bod unrhyw safle posibl yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn yr NPS ar gyfer rhoi'r dechnoleg a ddewisir ganddo ar waith.
- 5.1.3 Ni fydd y dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf yn newid y gofynion statudol sy'n ymwneud ag ymgynghori, a bydd hyn yn sicrhau bod y cyfleoedd presennol i randdeiliaid, partïon sydd â diddordeb a'r cyhoedd leisio eu barn ynglŷn ag unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd yn y dyfodol yn aros yr un fath.

### 5.2 Newid arfaethedig i'r dull gweithredu

- 5.2.1 Mae'r adran hon yn egluro sut y bydd yr Arolygiaeth Gynllunio, rheoleiddwyr, datblygwyr, a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â'r gwaith o weithredu'r meini prawf. Mae rhai newidiadau i'r rolau yng nghanam cyn ymgeisio y broses gynllunio, sy'n cael eu hamlinellu isod. Caiff manylion pellach eu datblygu, gan ystyried adborth i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd ag adborth i'r ymgynghoriad ar yr NPS drafft.
- 5.2.2 Dan EN-6 cynhaliodd y llywodraeth broses asesu safleoedd strategol er mwyn nodi safleoedd yng Nghymru a Lloegr a allai fod yn addas ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar waith cyn diwedd 2025. Roedd hyn yn dilyn proses lle'r oedd safleoedd yn cael eu henwebu ar gyfer eu hystyried neu eu nodi gan yr Astudiaeth o Safleoedd Amgen, ac arweiniodd at ddynodi'r wyth safle presennol. O dan y cynigion a gyflwynwyd ar gyfer EN-7, ni fydd y llywodraeth yn gwneud asesiadau safle strategol mwyach. Er hyn, cynigir y dylid cadw'r meini prawf asesu safle fel sail i asesu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu trydan niwclear (a gwres o bosibl yn y dyfodol).
- 5.2.3 Er mwyn galluogi rhaglen gynhyrchu ynni niwclear fodern, rydym yn cynnig grymuso datblygwyr<sup>20</sup> i gynnig safleoedd mewn dull gweithredu yn cael ei arwain gan y farchnad er mwyn manteisio ar dechnolegau niwclear newydd. Bydd defnyddio dull gweithredu yn seiliedig ar feini prawf yn golygu bod datblygwyr yn ymgymryd â'r rôl o ddewis safleoedd, ond rôl hollbwysig y rheoleiddwyr a'r awdurdodau cynllunio o hyd yw darparu cyngor ynglŷn ag addasrwydd posibl safleoedd ar gyfer cynhyrchu ynni niwclear yn erbyn y meini prawf lleoli. Mae rôl ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid

hefyd yn rhan sylfaenol o'r prosesau cynllunio. Mae'r llywodraeth yn credu bod y safleoedd a ddynodir yn EN-6 yn cadw'r priodoleddau cadarnhaol cynhenid a fydd yn golygu eu bod yn addas i'w hystyried ar gyfer eu datblygu ymhellach.

## 5.3 Newidiadau ymarferol i weithrediad y broses asesu safleoedd dan yr NPS newydd

- 5.3.1 Cynigir y dylid cadw'r meini prawf asesu fel sail i broses asesu safleoedd posibl ar gyfer cynhyrchu trydan niwclear (a gwres o bosibl yn y dyfodol). Dylai datblygwyr ddefnyddio'r meini prawf gwaharddol i sgrinio a nodi safleoedd sy'n addas ar gyfer cynigion prosiect penodol. Bwriedir darparu offer a data i gynorthwyo datblygwyr i wneud yr asesiad hwn eu hunain. Bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn arwain ar y meini prawf gwaharddol sy'n ymwneud â safleoedd amddiffyn, a bydd y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn rhoi cyngor i'r Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â sut y dylai'r datblygwr gymhwyso'r meini prawf gwaharddol ym mhob cam priodol drwy brosesau'r Arolygiaeth Gynllunio. Lle nad yw safle posibl yn cael ei wahardd gan y meini prawf gwaharddol, gall datblygwr ddal i bennu nodweddion y safle er mwyn canfod a yw safle yn bodloni'r meini prawf dewisol. Mae hyn yn wahanol i'r broses yn EN-6 lle'r oedd y llywodraeth yn asesu safleoedd a enwebwyd yn erbyn y meini prawf hyn. Yna gall y datblygwr ystyried a fyddai'n briodol gwneud cais i'r Arolygiaeth Gynllunio am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Mae'n bwysig nodi ei bod yn ofynnol dan y gyfraith i'r datblygwr hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio ei fod yn bwriadu gwneud cais am DCO.
- 5.3.2 Bydd y datblygwr yn gyfrifol am arwain drwy gydgyssylltu'r gwaith o bennu nodweddion safle, casglu corff o dystiolaeth i werthuso'r safle yn erbyn y meini prawf dewisol, ac ymgysylltu â rheoleiddwyr fel y bo'n briodol. Argymhellir ymgysylltu'n gynnar â rheoleiddwyr ac awdurdodau cynllunio er mwyn helpu â cheisiadau am drwyddedau amgylcheddol a chydysyniad cynllunio a allai fod angen asesiadau o safleoedd. Mae'r cydgysylltu â rheoleiddwyr a gynigir dan EN-7 yn newid bach yn y broses o'i gymharu ag EN-6, o ystyried y gweithgareddau a'r cydgysylltu y mae'n ofynnol i'r datblygwr ymgymryd â hwy ar hyn o bryd. Fel sy'n digwydd ar hyn o bryd dan broses bresennol EN-6, yn ogystal â chydgyssylltu â rheoleiddwyr, bydd y datblygwr yn mynd i gyfarfod cychwynnol gyda'r Arolygiaeth Gynllunio i drafod amserlenni cyn ymgysylltu â'r awdurdod lleol a pherchennog y tir. Dylai ymgysylltu rhwng y datblygwr, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol, a phartïon eraill sydd â diddordeb ddigwydd er mwyn gwerthuso gwaith pennu nodweddion safle yn erbyn y meini prawf dewisol. Nid yw hyn yn wahanol i'r canllawiau a nodwyd yn EN-6.
- 5.3.3 Bydd yn rhaid i ddatblygwyr gyfiawnhau yn erbyn y meini prawf a nodwyd yn EN-7 pam y mae'r safle a ddewiswyd ganddynt yn addas ar gyfer rhoi adweithyddion niwclear arno tra'n cynnal safonau uchel o ran diogelwch, diogeledd, a diogelu'r amgylchedd.
- 5.3.4 Dylai'r prosesau ymgynghori barhau fel y maent ar hyn o bryd dan EN-6. Mae ymgysylltu'n gynnar â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb, gan gynnwys y gymuned leol, yn cael ei gynghori'n gryf er mwyn sicrhau digon o amser i ymgorffori adborth yn y cynigion. Drwy gydol y broses cyn ymgeisio, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn gallu


darparu gwasanaethau i gynorthwyo'r datblygwr, gan gynnwys darparu adborth ar ddogfennau drafft a darparu barn gwmpasu. Bydd hefyd yn ofynnol i'r datblygwr gynnal ymgynghoriad statudol â'r awdurdodau lleol perthnasol. Mae cynnal ymgynghoriadau yn barhad o'r broses bresennol.

- 5.3.5 Ar ôl cwblhau'r gwaith cyn ymgeisio, bydd y datblygwr yn cyflwyno cais DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio. Yn y cam hwn, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn ystyried a yw'r cais yn bodloni'r safonau i fynd ymlaen i archwiliad cyhoeddus ai peidio. Mae cyngor pellach ynglŷn â phroses y DCO i'w weld ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.<sup>29</sup> Caiff y dull gweithredu hwn ei gryfhau ymhellach gan y diwygiadau a gynigir yn y cynllun gweithredu ar gyfer diwygio Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP), sy'n ceisio gwella ymgysylltiad rhwng datblygwyr a'r holl bartïon sydd â diddordeb yn ystod y cam cyn ymgeisio.
- 5.3.6 Yn ogystal â phroses y cais am DCO, byddai angen i'r datblygwr ddilyn trefniadau rheoleiddio eraill, gan gynnwys ymhlith pethau eraill gwneud cais am Drwydded Safle Niwclear, cael Caniatadau Amgylcheddol perthnasol, sicrhau bod y dechnoleg wedi cael Cyfiawnhad Rheoleiddiol ynghyd â gwneud yr Aseiad Dyluniad Generig (GDA) a argymhellir lle bo'n briodol. Fel arfer byddai disgwyl i ddatblygwyr a rheoleiddwyr fod wedi cwblhau'r GDA neu symud ymlaen yn dda ag ef erbyn yr adeg y gwneir cais am DCO. Byddai angen i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gymeradwyo rhaglen ddatgomisiynu wedi'i hariannu ar gyfer y safle. I gael rhagor o wybodaeth am y trefniadau rheoleiddio eraill gweler Atodiad 3.

---

<sup>29</sup> Yr Arolygiaeth Gynllunio (2012). Y broses. Ar gael yn: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/the-process/>.

**Ffigur 1: Mae'r siart llif yn dangos y broses dewis safle a chyn ymgeisio yn y polisi arfaethedig a rôl y datblygwr.**



This high-level diagram illustrates the pre-application process. It is important to note that activities of each stage overlap and the stages act as logical review points for the developer to consider the progress of the project. Additional information concerning each process is found within the main body of text. Engagement with statutory consultees is strongly advised for greater detail. PINS will provide advice to the developer throughout the pre-application process which includes providing feedback on draft documents and a scoping opinion.

**Cwestiwn 11:** Mae'r adran 'Gweithredu' yn disgrifio sut y caiff y dull polisi newydd ei weithredu. Beth yw eich barn ynglŷn â'r model arfaethedig ar gyfer gweithredu?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 12:** Pa gymorth, os oes cymorth i'w gael, gan y llywodraeth neu GBN<sup>1</sup> fydddech chi'n disgwyl ei weld er mwyn cynorthwyo datblygwyr i nodi safleoedd? (testun rhydd, 300 gair)

## 6 Crynodeb o holl gwestiynau'r ymgynghoriad

**Cwestiwn 1:** Mae EN-6 yn gymwys i brosiectau graddfa GW yn unig. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig y dylai EN-7 fod yn gymwys i brosiectau graddfa GW, a hefyd i SMRs ac AMRs. Beth yw eich barn chi ynglŷn â chynnig y llywodraeth i ehangu'r ystod o dechnolegau y bydd yr NPS niwclear newydd yn ymwneud â hwy?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 2:** Mae EN-6 yn cynnwys safleoedd posibl a aseswyd gan y llywodraeth. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig y dylai EN-7 rymuso datblygwyr i asesu a nodi safleoedd posibl gan ddefnyddio meini prawf cadarn. Beth yw eich barn ynglŷn â chynnig y llywodraeth i newid ei pholisi lleoli niwclear i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf.

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 3:** Mae EN-6 yn cynnwys terfyn amser ar gyfer rhoi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar waith. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig na ddylai EN-7 gynnwys terfynau amser er mwyn cefnogi cynllunio hirdymor. Beth yw eich barn ynglŷn â chynnig y llywodraeth i newid ei bolisi lleoli gorsafoedd niwclear i ddull gweithredu sy'n seiliedig ar ffrâm amser heb gyfyngiadau?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno



- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 4:** Mae'r NPS yn ceisio darparu mwy o hyblygrwydd i amrywio safleoedd niwclear er mwyn helpu i gyflawni ein huchelgeisiau Sero Net, tra'n sicrhau bod lleoli gorsafoedd ynni niwclear newydd yn cael ei gyfyngu'n briodol gan feini prawf priodol. I ba raddau rydych yn cytuno bod y prif gynigion polisi a amlinellir yn yr adran hon (*ymestyn yr NPS i dechnolegau newydd, mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf ar gyfer lleoli datblygiadau newydd, a chael gwared ar y terfyn amser er mwyn agor mwy o safleoedd*) yn cyflawni'r nodau hyn?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 5:** A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno deddfwriaeth i gynnwys pob prosiect ymholliad niwclear yn y system NSIP yn Lloegr, gan gynnwys adweithyddion ag allbwn cynhyrchu llai na 50MW ac adweithyddion sy'n cynhyrchu gwres yn unig neu danwydd synthetig yn unig, megis hydrogen?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 6:** A oes gennych dystiolaeth neu wybodaeth dechnegol ynglŷn ag adweithyddion ymholliad sy'n cynhyrchu gwres yn unig neu danwydd synthetig yn unig a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn helpu i benderfynu a ddylid eu cynnwys yn yr NPS niwclear ar ôl 2025? (Testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'r meini prawf sy'n cael eu heffeithio gan ein prif newidiadau polisi arfaethedig yn gywir?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 7a-7d. Os dymunwch, rhwch unrhyw sylwadau er mwyn egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

7a - Llifogydd, tswnami ac ymchwydd storm a phrosesau arfordirol

7b - Y sefyllfa ddiodyn o ran ystyried perygl llifogydd yw y dylai datblygwyr yn gyntaf ystyried safleoedd neu atebion eraill ar lefel genedlaethol, oni bai fod rheswm polisi pam y dylid cyfyngu'r cwmpas er mwyn canolbwyntio yn hytrach ar lefel ranbarthol neu leol. Lle nodir perygl llifogydd neu risg o erydiad arfordirol, ac nad yw safle amgen yn hyfyw, ystyrir opsiynau a mesurau lliniaru yn fanylach drwy'r asesiad perygl llifogydd. Bwriadwn ystyried a oes cyfiawnhad polisi dros gyfyngu'r ffocws i lefel fwy rhanbarthol neu leol fel rhan o'r NPS, ond byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau neu dystiolaeth a fyddai'n cefnogi ein hystyriaeth ac yn ein helpu i ddiffinio eu cwmpas.

7c - Nodweddion lleoliadol a dwysedd poblogaeth

7d - Meini prawf eraill yr effeithir arnynt ond nad ydynt wedi'u nodi uchod

**Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi yn gywir bod y meini prawf hyn wedi'u cynnwys yn EN-7, EN-1 ac mewn canllawiau ehangach?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 8a-8c. Os dymunwch, rhwch sylwadau er mwyn egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

8a - Gwrthsefyll ac addasu i newid hinsawdd

8b - Diogelu dŵr daear

8c - Meini prawf eraill y dylid ystyried peidio â'u cynnwys, nad ydynt wedi'u nodi uchod

**Cwestiwn 9:** A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir nad oes angen datblygiad arwyddocaol ar gyfer y meini prawf hyn?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 9a-9h, Os dymunwch, rhwch unrhyw sylwadau er mwyn egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

9a - Agosrwydd at weithgareddau milwrol

9b - Agosrwydd at safleoedd peryglon mawr a phiblinellau peryglon damweiniau mawr

9c - Agosrwydd at Symudiadau Awyrennau Sifil

9d - Safleoedd o bwysigrwydd ecolegol â dynodiad cenedlaethol a rhyngwladol

9e - Ardaloedd sy'n werthfawr o ran amwynder a thirwedd a threftadaeth ddiwylliannol

9f - Maint safle ar gyfer gweithredu

9g - Mynediad at ffynonellau oeri addas

9h - Meini prawf eraill nad oes ganddynt ddatblygiad arwyddocaol ond nad ydynt wedi eu nodi uchod

**Cwestiwn 10:** A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu a gynigiwyd gennym mewn cysylltiad â'r materion eraill a ystyriwyd yn EN-6 ac y bydd angen eu hystyried yn EN-7? Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno â'r safbwynt a nodwyd yn yr Ymgynghoriad.

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

Cwestiynau 10a-10f. Os dymunwch, rhowch sylwadau i egluro neu ymhelaethu ymhellach ar eich ymatebion i'r cwestiwn yn yr adran hon mewn cysylltiad â'r canlynol: (testun rhydd, 300 gair)

10a - Rhinweddau safle a enwebwyd o gymharu ag atebion amgen eraill: A oes gennych awgrymiadau neu dystiolaeth ynglŷn â beth y dylid ei gynnwys, neu na ddylid ei gynnwys, fel rhan o ystyriaeth y llywodraeth o ddewisiadau amgen rhesymol ar y lefel strategol?

10b - Rheoli gwastraff ymbelydrol

10c - Effeithiau mwy nag un adweithydd

10d - Perchnogaeth safleoedd

10e - Manteision Net i Fioamrywiaeth

10f - Materion eraill i'w hystyried fel rhan o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar feini prawf

**Cwestiwn 11:** Mae'r adran 'Gweithredu' yn disgrifio sut y caiff y dull polisi newydd ei weithredu. Beth yw eich barn ynglŷn â'r model arfaethedig ar gyfer gweithredu?

Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn, ac eglurwch eich ateb.

- Anghytuno'n gryf
- Anghytuno
- Heb benderfynu
- Cytuno
- Cytuno'n Gryf
- Dim digon o wybodaeth
- Eglurwch eich ateb (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 12:** Pa gymorth, os oes cymorth i'w gael, gan y llywodraeth neu GBN<sup>1</sup> fyddech chi'n disgwyl ei weld er mwyn cynorthwyo datblygwyr i nodi safleoedd? (testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 13:** A oes unrhyw wybodaeth, persbectif, neu ystyriaeth arall y credwch ei bod yn bwysig i ddatblygiad yr NPS niwclear, nad yw wedi cael sylw digonol efallai, neu nad yw wedi'i chynnwys yn y ddogfen ymgynghori? Rhannwch eich barn ac awgrymiadau. (Testun rhydd, 300 gair)

**Cwestiwn 14:** Nodwch y sectorau neu'r buddiannau rydych yn eu cynrychioli mewn cysylltiad â lleoli gorsafoedd ynni niwclear. (Dewiswch bob un sy'n gymwys):

- Aelod o'r cyhoedd
- Aelod o'r gymuned leol yng nghyffiniau gosodiad niwclear posibl neu sy'n bodoli'n barod
- Sefydliad sy'n gyfrifol am/sydd â diddordeb mewn datblygiadau niwclear newydd
- Sefydliad sy'n rhan o gadwyn gyflenwi datblygiadau niwclear newydd
- Eiriolwr amgylcheddol
- Busnes neu ddiwydiant ynni, gweithiwr proffesiynol neu arbenigwr ar ynni
- Rheoleiddiwr
- Gweithiwr proffesiynol neu arbenigwr ynni niwclear
- Academydd neu ymchwilydd
- Cynrychiolydd awdurdod/llywodraeth leol
- Cynrychiolydd y llywodraeth genedlaethol
- Corff anllywodraethol
- Arall (testun rhydd, 30 gair)

## 7 Y camau nesaf

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf yn y broses o ddynodi Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) niwclear newydd. Mae wedi'i dargedu tuag at y newidiadau perthnasol hynny mewn dull polisi ar gyfer lleoli adweithyddion niwclear newydd, a chynhelir ymgynghoriad ffurfiol arall ar yr NPS drafft. Mae llinell amser lefel uchel yn nodi'r gweithgaredd disgwylidiedig dros y ddwy flynedd nesaf i'w gweld isod.

### Cam 1 (gwanwyn 2024)

- Bwriad i gyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad hwn ar y dull polisi ar gyfer lleoli
- Datblygu NPS drafft, yn cynnwys meini prawf manwl a phrosesau i helpu i ddewis safle
- Gwneir Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoS) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) i fynd gyda'r NPS drafft.

### Cam 2 (amcangyfrifir hydref 2024)

- Y Llywodraeth yn disgwyl ymgynghori ar NPS Niwclear drafft.
- Y Llywodraeth yn disgwyl ymgynghori ar yr AoS a'r HRA drafft.

### Cam 3 (amcangyfrifir gwanwyn 2025)

- Bwriad i gyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r ymgynghoriad ar yr NPS drafft
- Datblygu'r NPS niwclear terfynol
- Caiff yr AoS a'r HRA eu diweddarau yn ôl y galw yn unol â'r NPS newydd.

### Cam 4 (amcangyfrifir hydref 2025)

- Y Llywodraeth yn disgwyl cyhoeddi'r NPS niwclear, yr AoS a'r HRA terfynol.
- Y Llywodraeth yn bwriadu rhoi'r NPS niwclear terfynol gerbron y senedd, yn unol ag adrannau 5(4) a 9 o Ddeddf Cynllunio 2008.



# Atodiad 1: Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol am ynni?

## Beth yw Datganiadau Polisi Cenedlaethol am ynni (NPS)?

Mae'r NPSs ynni yn amlinellu polisi ynni cenedlaethol ac yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) yn ymwneud ag ynni dan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae EN-1 yn amlinellu'r achos anghenion ar gyfer rhai egwyddorion asesu cyffredinol a seilwaith ynni, tra mae'r pum NPS ynni arall (EN-2 i EN-6) yn amlinellu egwyddorion asesu ar gyfer technolegau penodol. Rhaid i geisiadau am gydsyniad datblygu ar gyfer NSIPs ynni fod yn unol â'r NPS perthnasol.

## Perthnasedd i rai sy'n gwneud penderfyniadau

Mae'r NPSs yn darparu'r fframwaith sy'n galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i wneud penderfyniadau buan sy'n gadarn o safbwynt cyfreithiol. Mae EN-1 yn nodi sut y mae NPSs yn llywio proses gwneud penderfyniadau yr Ysgrifennydd Gwladol a'r materion y mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried yn unol â Deddf Cynllunio 2008 wrth ystyried ceisiadau.

## Perthnasedd i ymgeiswyr

Mae'r NPSs yn darparu'r wybodaeth gyfreithiol, polisi a thechnegol y dylai ymgeiswyr ei hystyried a'i hasesu yn eu ceisiadau. Y meini prawf strategol cenedlaethol yw'r meini prawf asesu penodol ar gyfer niwclear a ddefnyddir, yn ogystal ag egwyddorion cyffredinol EN-1 a meini prawf penodol i niwclear EN-6 er mwyn nodi safleoedd a allai fod yn addas ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd.

## Adolygu'r NPSs ynni presennol

Cafodd yr NPSs ynni eu 'dynodi' am y tro cyntaf yn 2011<sup>30</sup>. Ym mis Rhagfyr 2020<sup>31</sup> cyhoeddodd y llywodraeth adolygiad o'r NPSs ynni dan adran 6 o Ddeddf Cynllunio 2008 er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r polisïau a nodwyd yn y Papur Gwyn ar Ynni a bod gennym fframwaith polisi cynllunio o hyd sy'n gallu cefnogi'r seilwaith sydd ei angen ar gyfer pontio i sero net.

---

<sup>30</sup> Llywodraeth y DU (2011). Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer seilwaith ynni. Ar gael yn: [www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure](http://www.gov.uk/government/publications/national-policy-statements-for-energy-infrastructure).

<sup>31</sup> Llywodraeth y DU (2020). Energy white paper: Powering our net zero future. Ar gael yn: [www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future](http://www.gov.uk/government/publications/energy-white-paper-powering-our-net-zero-future).

Cynhaliwyd yr adolygiad yn unol â chanllawiau ar y broses adolygu NPSs a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (DLUHC erbyn hyn)<sup>32</sup>. Cafodd pob NPS ei ystyried yn ei dro, er mwyn ceisio nodi cyfeiriadau anghyson neu wedi dyddio at y fframwaith rheoleiddio neu'r fframwaith polisi. Lle nodwyd newid, ystyriwyd effaith debygol gwneud newidiadau. Yn ogystal, ystyriwyd a oedd newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau yn golygu bod angen newidiadau ehangach i'r NPS. Yna ystyriwyd a ddylid tynnu'r NPS yn ôl, ei ddiwygio neu ei adael fel y mae, yn unol â gofynion Adran 6(5) o Ddeddf Cynllunio 2008.

Daeth yr adolygiad i'r casgliad y dylid diwygio dogfennau presennol EN-1 i EN-5. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ynglŷn â dogfennau diwygiedig EN-1 i EN-5.

Ar hyn o bryd mae EN-6 yn amlinellu'r drefn gynllunio a chydysyniadau ar gyfer prosiectau niwclear y gellir eu rhoi ar waith cyn diwedd 2025. Mae adolygiad o EN-6 wedi dod i'r casgliad na fyddai EN-6 yn cael ei ddiwygio gan nad oes unrhyw newidiadau sy'n berthnasol i'r amgylchiadau cyfyngedig y bydd yn cael effaith ynddynt (gweler Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig 7 Rhagfyr 2017)<sup>33</sup>.

Bydd EN-6 yn dal i fod â'r rôl a amlinellwyd yn Natganiad Gweinidogol Ysgrifenedig 2017 yn ystod datblygiad unrhyw NPS niwclear newydd. Bydd yn parhau'n gymwys ar gyfer unrhyw seilwaith cynhyrchu trydan niwclear y gellir ei roi ar waith cyn 2025, neu ar gyfer ceisiadau i ddiwygio cydsyniad datblygu ar gyfer gwaith cynhyrchu o'r fath. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth, asesiadau a datganiadau a allai ddal i fod yn bwysig ac yn berthnasol i brosiectau a fydd yn cael eu rhoi ar waith ar ôl 2025. Gallai hyn gynnwys y prosiectau hynny a fydd yn cael eu harchwilio cyn dynodi unrhyw ddiwygiadau i EN-1 yn ogystal â'r rhai a fydd yn cael eu harchwilio ar ôl dynodi unrhyw ddiwygiadau i EN-1.

## Trosolwg o EN-1

Mae'r NPS ynni ymbarél (EN-1), a gyhoeddwyd am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2011 ac y cyhoeddwyd diweddariad drafft ohono yn 2023, yn nodi'n glir bod y llywodraeth yn credu bod cynhyrchu ynni niwclear yn dechnoleg carbon isel wedi'i phrofi a fydd yn chwarae rhan bwysig wrth i ni symud i amrywio a datgarboneiddio ein ffynonellau trydan a chynyddu cydnerthedd system ynni'r DU. Roedd y ddau fersiwn hefyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r angen i gynhyrchu trydan yn y dyfodol ac roedd yr asesiad hwnnw'n nodi'n glir bod gan ynni niwclear ran bwysig i'w chwarae yng nghymysgedd ynni'r DU yn y dyfodol.

Mae EN-1 yn rhan o gyfres o NPSs a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ). Mae'n nodi polisi'r llywodraeth ar gyfer cyflawni seilwaith ynni mawr.

Mae EN-1 yn uwch na'r NPSs ynni eraill. Mae ganddo dair prif rôl:

---

<sup>32</sup> Llywodraeth y DU (2021). Planning Act 2008: Guidance on the process for carrying out a review of existing National Policy Statements. Ar gael yn: [www.gov.uk/guidance/planning-act-2008-guidance-on-the-process-for-carrying-out-a-review-of-existing-national-policy-statements](http://www.gov.uk/guidance/planning-act-2008-guidance-on-the-process-for-carrying-out-a-review-of-existing-national-policy-statements).

<sup>33</sup> Llywodraeth y DU (2017). Statement on Energy Infrastructure. Ar gael yn: <https://questions-statements.parliament.uk/written-statements/detail/2017-12-07/HCWS321>.

- amlinellu sut y bydd y gyfres o NPSs ynni yn gweithio ac egluro fframwaith polisi presennol y llywodraeth;
- amlinellu'r egwyddorion asesu a'r effeithiau cyffredinol sy'n gymwys i bob seilwaith ynni; a
- sefydlu'r angen am seilwaith ynni newydd.

Sefydlir yr angen presennol am seilwaith ynni newydd yn EN-1, o safbwynt cyffredinol drwy edrych ar yr angen am gyflenwad ynni a chymysgedd amrywiol o gynhyrchu trydan, ac o ran yr angen am fathau penodol, carbon isel o seilwaith ynni. Mae EN-1 hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am faterion penodol sy'n gymwys i fwy nag un math o seilwaith, megis egwyddorion asesu ac effeithiau.

## Atodiad 2: Hierarchaeth meini prawf lleoli niwclear

### Egwyddorion asesu ac effeithiau cyffredinol EN-1 a ‘meini prawf strategol cenedlaethol’ penodol ar gyfer niwclear EN-6

#### Egwyddorion asesu

Mae egwyddorion asesu yn disgrifio'r ystyriaethau cyffredinol y dylid eu cymhwyso wrth asesu ceisiadau DCO ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd, gan gynnwys ystyriaethau polisi perthnasol.

- Mae EN-1 yn amlinellu'r polisiâu cyffredinol sy'n gymwys i bob cais seilwaith ynni.
- Mae EN-6 yn amlinellu'r polisiâu penodol sy'n gymwys i geisiadau am seilwaith ynni niwclear.

#### Meini prawf lleoli strategol

Cynlluniwyd y meini prawf lleoli strategol fel sail i asesiad o addasrwydd *posibl* ar gyfer datblygiad niwclear yn y cam cyn ymgeisio ac maent wedi eu grwpio dan y tri chategori cyffredinol a ganlyn: diogelwch a diogeledd niwclear, diogelu'r amgylchedd, a gofynion gweithredol. Nid yw cael ei ystyried yn safle a allai fod yn addas yn gwarantu y bydd cydsyniad datblygu yn cael ei roi i brosiect penodol, ac nid yw'n diystyru gofynion yn ymwneud â chael trwydded a chaniatâd i safle.

#### Effeithiau ac ystyriaethau lleoli cyffredinol

Mae'r rhain yn feini prawf asesu sy'n mynd i'r afael â'r effeithiau sy'n deillio o brosiectau seilwaith ac y dylai datblygwyr roi sylw iddynt yn eu ceisiadau DCO.

- Effeithiau cyffredinol EN-1 – mae'r rhain wedi'u cynllunio er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau sy'n deillio o ddatblygu pob prosiect seilwaith ynni *neu* sy'n codi mewn ffyrdd tebyg o ddatblygu seilwaith ynni yr ymdrinnir ag ef mewn o leiaf ddau o'r NPSs ynni. Caiff y rhain eu hasesu gyda'r effeithiau technoleg benodol yn ystod archwiliad DCO.

Effeithiau niwclear EN-6 – meini prawf asesu sy'n mynd i'r afael â'r effeithiau penodol sy'n deillio o bob prosiect niwclear.

## Atodiad 3: Crynodeb o'r Trefniadau Rheoleiddio

**Gorchmynion Cydsyniad Datblygu (DCO)** – Mae DCO yn broses â mwy o bwyslais ar y camau cychwynnol, sy'n cael ei harwain gan yr ymgeisydd, lle mae'n rhaid i'r cynnig datblygu fod wedi ei gwmpasu'n llawn a'i fireinio cyn cael ei gyflwyno. Byddai'n werth cysylltu â'r Arolygiaeth Gynllunio yn gynnar yn y broses a threfnu cyfarfod cychwynnol i amlinellu cwmpas y prosiect. Mae hyn yn cynnwys gofynion statudol a chanllawiau ar ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned ar adegau amrywiol yn y broses<sup>34</sup>.

**Trwyddedau Amgylcheddol** – Mae Asiantaethau'r Amgylchedd yn gyfrifol am dderbyn ceisiadau ar gyfer y trwyddedau amgylcheddol sy'n ofynnol ar gyfer cynllunio, adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd<sup>21</sup>. Mae'r gweithgareddau perthnasol sydd angen trwydded amgylcheddol yn cynnwys:

- gollwng a gwaredu gwastraff ymbelydrol
- gweithredu safle hylosgi, yn darparu ar gyfer gwaith adeiladu a chynhyrchu trydan wrth gefn neu ar gyfer codi stêm
- tynnu dŵr
- gweithrediadau gwastraff, gan gynnwys llosgi
- oeri cyddwysydd tyrbîn, prosesau, dŵr daear a dŵr wyneb
- gwaith ar neu yn agos at brif afonydd, amddiffynfeydd rhag llifogydd neu amddiffynfeydd môr.

Bydd Asiantaethau'r Amgylchedd yn penderfynu a ddylid rhoi trwydded, ac os dylid, pa amodau y dylid eu cynnwys er mwyn sicrhau y bydd pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu'n briodol. Mae'n drosedd i beidio â chydymffurfio ag amodau trwydded amgylcheddol neu i ymgymryd â gweithgaredd penodol heb drwydded amgylcheddol. Mae amodau trwydded yn cynnwys gofynion i ddeiliaid dyletswydd fod â digon o adnoddau cymwys a threfniadau rheoli i gyfyngu ar ollyngiadau a gwarediadau, a lle bo'n berthnasol, ar gyfer defnyddio'r Technegau Gorau sydd ar Gael (BAT) i greu a gwaredu llai o wastraff, a lleihau ei effaith ar bobl a'r amgylchedd. Gall trwyddedau amgylcheddol fod yn ofynnol yng nghanam cynharaf prosiect er mwyn galluogi ymchwiliadau safle a gwaith pennu nodweddion. Mae'n werth gwneud cais am Drwyddedau Amgylcheddol cyn gwneud cais am DCO er mwyn helpu i ddarparu gwybodaeth drwyddedu i'r broses o wneud penderfyniad ynglŷn â DCO a helpu i sicrhau bod trwyddedau yn eu lle er mwyn gallu cychwyn ar y gwaith.

---

<sup>34</sup> Yr Arolygiaeth Gynllunio (2012). The process. Ar gael yn: <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/the-process/>.

Mae Asiantaethau'r Amgylchedd yn croesawu ymgysylltu cynnar â darpar weithredwyr a datblygwyr gorsafoedd ynni niwclear newydd er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth dda o ofynion a disgwyliadau'r rheoleiddwyr wrth roi trwyddedau amgylcheddol ac wrth wneud penderfyniadau cynllunio (DCO), lle maent yn ymgynghoreion statudol. Mae manylion a mynediad at wasanaethau cyngor cyn ymgeisio safleoedd penodol y rheoleiddwyr ar roi trwyddedau a materion cynllunio i'w cael drwy gysylltu â hwy neu drwy eu gwefannau. Mae'r cyngor cyn ymgeisio ar gyfer safleoedd penodol yn ychwanegol at waith y rheoleiddwyr ar asesu dyluniad cyffredinol.

**Trwyddedu Safleoedd Niwclear** – Cyn y gellir adeiladu gorsaf ynni niwclear a'i gweithredu ar safle penodol, rhaid cael trwydded safle niwclear gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear. Rhaid bodloni'r amodau a ganlyn cyn y gellir rhoi'r drwydded:

- mae'r safle yn ddiogel;
- mae'r safle yn addas ar gyfer y dyluniad penodol; ac
- mae'r gweithredwr arfaethedig yn gallu rheoli gwaith adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r orsaf.

Mae trwydded safle yn rhoi deiliad y drwydded dan rwymedigaethau cyfreithiol llym ac yn rhoi pwerau rheoleiddio penodol i'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) i sicrhau bod trwyddedai'r safle'n cyflawni ei gyfrifoldebau i sicrhau diogelwch a diogeledd. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i brosiect adeiladu newydd gael Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), a roddir gan yr Arolygiaeth Gynllunio. O ganlyniad, mae'n werth gwneud cais am drwydded safle niwclear yn ogystal â DCO. Gellir rhoi trwydded pan fydd yr ONR yn fodlon bod dogfennau diogelwch a diogeledd y sawl sy'n gwneud cais am y drwydded yn darparu sicrwydd y bydd y safle yn addas ar gyfer y gweithgareddau arfaethedig.

**Cyfiawnhad Rheoleiddiol** – Mae hwn yn asesiad lefel uchel, heb fod ar gyfer safle penodol, sy'n asesu a yw'r budd i unigolyn neu gymdeithas sy'n deillio o ddsbarth neu fath o ymarfer yn fwy na'r niwed y gallai ei achosi i iechyd. Ym mis Hydref 2020, ymgwymerodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig â rôl Awdurdod Cyfiawnhau ar gyfer adweithyddion niwclear newydd oherwydd gofyniad deddfwriaethol i wahanu swyddogaethau. Darperir cyngor cyn ymgeisio gan y Ganolfan Ceisiadau Cyfiawnhad, swyddfa weinyddol yn yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, sy'n darparu pwynt cyswllt cychwynol i ymgeiswyr. Rhaid i'r Awdurdod Cyfiawnhau ar gyfer gorsafoedd niwclear fod 'ar wahân i swyddogaethau' yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net, felly er bod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn gallu gofyn am gyngor ynglŷn â phroses, rhaid cynnwys yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net yn y broses o wneud penderfyniadau. Gellir cael cyfiawnhad cyn y prosesau rheoleiddio eraill<sup>35</sup>.

**Asesiad Dyluniad Generig (GDA)** – Mae GDA yn broses ddadrisgio wirfoddol sy'n cael ei hargymell lle mae rheoleiddwyr niwclear yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd sy'n cael eu hadeiladu yng Nghymru a Lloegr yn

---

<sup>35</sup> Llywodraeth y DU (2010). Regulatory Justification decisions on nuclear reactors. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-justification-decisions-on-nuclear-reactors>.



bodloni safonau uchel o ran diogelwch, diogeledd, diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff<sup>36</sup>.

**Rhaglen Ddatgomisiynu a Ariennir (FDP)** – Mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyo cynlluniau ar gyfer trefniadau ariannu digonol i dalu costau llawn datgomisiynu a'u cyfran lawn o gostau rheoli a gwaredu gwastraff<sup>37</sup>.

---

<sup>36</sup> Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (2023). Guidance on assessment of new nuclear power stations. Ar gael yn: <https://www.onr.org.uk/new-reactors/guidance-assessment.htm>.

<sup>37</sup> Llywodraeth y DU (2011). THE ENERGY ACT 2008 Funded Decommissioning Programme Guidance for New Nuclear Power Stations. Ar gael yn: <https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a790679e5274a2acd18ba0a/guidance-funded-decommissioning-programme-consult.pdf>.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar gael yn: [www.gov.uk/government/consultations/approach-to-siting-new-nuclear-power-stations-beyond-2025](https://www.gov.uk/government/consultations/approach-to-siting-new-nuclear-power-stations-beyond-2025)

Os oes arnoch angen fersiwn o'r ddogfen hon mewn fformat mwy hygyrch, anfonwch ebost at [alt.formats@energysecurity.gov.uk](mailto:alt.formats@energysecurity.gov.uk). Rhowch wybod i ni pa fformat y mae arnoch ei angen. Bydd o gymorth i ni os byddwch yn dweud pa dechnoleg gynorthwyol rydych yn ei defnyddio.